"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD,

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR, 1884. [RHIF 40.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Rhoddion Nadolig	265
Cristadelphiaeth	267
Y "V Vawr" ac Ap Ioan	276
Sefydliad yr achos yn Rhydyparc	279
Adolygiad	280
Manion a Hanesion	286
Marwgofion	288

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

The Treasurer in Account with the Building Committee of Graig Chapel, Llandyssul.

Receipts.

	£	s.	d.
Amount of Subscriptions received	745	11	10

Payments.

	£	s.	d.
To Watkin Davies, Amount of Contract	597	0	0
,, Do. Extras	23	17	0
,, John Wills, Architect, Fee and Travelling Expenses	33	1	4
,, Mr. Fitzwilliams, Rent on Chapel Site and Gardens for 2 years	11	15	0
,, Mr. J. D. Thomas, amount of compensation for giving up right to ground, and making plans of 2 Cottages on the same, the sum handed over as Subscription to the Building Fund... ...	5	5	0
,, Charges for Advertising in the "Christian Life," "Inquirer," "Unitarian Herald," and "Ymofynydd," charge of latter (£2 2s. 0d.) handed over to Building Fund	18	14	8
,, Amount paid for 2 Bibles and 12 Hymn Books, including Binding, for use of pulpit, &c. ...	3	2	0
,, Paid for American Organ and Music Stool ...	20	18	0
,, Paid for Matting, Oilcloth, Pulpit Cushion, Lamps, Communion Service, and cost of Chapel Registration...	16	15	1½
,, Secretary's Expenses in Stamps, Stationery, Wrappers and Travelling	6	1	4
,, Hotel Expenses of Architect, and Miscellaneous Charges during Opening Services, &c. ...	3	0	3
,, Printing Circulars, Posters, &c.	2	2	6
	£741	12	2½
,, Balance in Treasurer's hand to meet legal charges not yet made	3	19	7½
	£745	11	10

The Account was examined and found correct by us:—

THOMAS THOMAS, Criborfawr,
DANIEL EVANS, Porth Hotel, } Auditors.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR, 1884. [RHIF 40.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

RHODDION NADOLIG.

GAN HEN WEINIDOG.

YR oeddwn wedi prynu rhywbeth i bob un o'r teulu, ac wedi eu gosod o'r neilldu mewn lle dyogel i'w cyflwyno ar foreu Nadolig. Daeth y dydd dysgwyliedig o'r diwedd, ac yr oedd un o'n myfyrwyr ieuainc yn dodi i fyny gyda mi y noson flaenorol. Yr oeddwn yn teimlo fod yn rhaid i mi gael rhodd iddo yntau hefyd; ac felly, aethum i fyny'r grisiau ac i'm llyfrgell; edrychais hwnt ac yma er gweled a allaswn gael rhywbeth fuasai yn cario yspryd y dydd i galon y gwr ieuanc.

Ddwy flynedd yn ol yr oedd gwyl ganmlwyddol wedi ei chynnal mewn capel cyfagos. Yr oedd y gweddiau, yr emynau, ac anerchiad wedi eu rhwymo yn ddestlus i'w cyflwyno i rai o gyfeillion yr achos; fel hen weinidog oedd yn bresenol ar yr achlysur, cefais amryw gopiau. Yr oeddwn wedi rhoddi dau neu dri i gyfeillion anwyl; ond yr oedd genyf rai etto yn aros; a thybiais y buasai hanes byr o hen eglwys barchus yn dderbyniol gan, ac yn addas i ddyn ieuanc oedd ar fyr i gymmeryd i fyny waith y tadau. Cymmerais un yn fy llaw, a rhwygais y got lwyd oedd am dano, ac fel yr oedd y dail yn ymranu, cynhyrfwyd fi nid ychydig wrth weled fy enw yn ysgrifenedig ar un o'r dail, gyda'r geiriau, "Rhoddedig gan Swyddogion yr Eglwys," ac yr oedd pob un o honynt wedi ysgrifenu ei enw ei hunan. Pan ganiataodd fy syndod a'm llawenydd i mi gofio i ba beth oeddwn wedi myned i'r llyfrgell, ymeflais mewn copi oedd heb yr ysgrif gyssegredig arno, a dychwelais i lawr y grisiau y llawenaf un o'r cwmni.

Ymddangosai i mi fel pe byddai dwylaw anweledig wedi dwyn i mi y rhodd hon, fel y byddai i mi gael rhodd Nadolig fel y lleill. Yr oedd yn neillduol anwyl genyf, gan ei fod yn dod oddiwrth rai oeddwn wedi

garu ac anrhydeddu ; rhai ag oeddwn wedi myned gyda hwy i dŷ Dduw am un flynedd ar ddeg. Yr oeddwn wedi chwilio rhodd i fy nghyfaill a chefais un i mi fy hun. Yr oeddwn wedi ceisio gwneuthur calonau ereill yn llawen, ac wele yr oedd llawenydd wedi dyfod i lanw fy nghalon fy hun. Onid felly y mae yn wastad? Daw llawenydd i ni wrth helpu a gwasanaethu a rhdodi i ereill o amgylch i ni. Nid yw yn wastad yn cymmeryd y ffurf o rodd o ad-daliad; nid yw y llawenydd o roddi yn wastad yn cymmeryd ffurf deimladwy ; yn fynych mae yn wasgaredig trwy y bywyd mewnol, megys profiad, ond y mae yn yn sicr o ddod. Ceir mwy o wir hapusrwydd yn y parotoad o'ch roddion Nadolig i'r cyfryw a garwch nag yn y derbyniad o roddion, nad pa mor brydferth a chostus y byddont. Yr wyf yn galw fy llyfr yn amlygiad dwysedig o'r llawenydd o roddi. Yr oedd fel pe byddai profiad mewnol wedi cymmeryd ffurf fel y gallai ereill weled a chredu yn ei sicrwydd. Yr oedd fel pe byddai yr Arglwydd yn dywedyd, "Dygwch y fendith a gyflwyna fy ngras ar y rhoddwr, fel y gallo pawb weled a gwybod fod y ffynnonau yn dylifo i adnewyddu ereill, heb fyth ymwaghau na myned yn sych.

Dywedir i Ddoethion y Dwyrain ddwyn rhoddion i'r baban yn mhreseb Bethlehem. Dangosent eu diolchgarwch am ei ymddangosiad trwy foli a rhoi. Os nad oes genym ni roddion fel yr eiddynt hwy, gallwn o leiaf ddywedyd y gair fyddo'n helpu, y gair fyddo'n moli. Iesu oedd ac yw y cyntaf a'r mwyaf o roddion Nadolig. Duw a'i rhoddodd ef fel y caem fywyd. A ydych erioed wedi meddwl gymmaint gyflawnach a ddedwyddach yw ein bywyd hwn, am fod genym yr Iesu? Pan ddarllenwch hanes y cyfnod Cristionogol, ac y cyferbyniwch y byd gynt a'r byd yn awr, cewch weled beth gyflawnwyd ganddo tuag at wneuthur ein bywyd yn gyfoethog ac yn llawn gobaith ; a thrwy ei oroesiad ar ol marw, y prawf sydd genym fod ein bywyd yn feddiant na ddichon un cyfnewidiad ar y ddaear ei ddinystrio. Fel efe cawn fyw yn y blaen pan mewn ymddangosiad yn marw. Rhodd Duw trwy Iesu Grist, y sicrwydd am anfarwoldeb, yw prif lawenydd y galon grediniol. Rhodd nad yw byth yn myned yn hen na byth yn ymdreulio allan. Yr oedd yn newydd i'r sawl a'i derbyniasant gynt o'i wefusau, mae yn newydd heddyw i ninau.

Pan ddelo y Nadolig, yr ydym oll yn derbyn o'r newydd rodd sydd yn dragwyddol fel blynyddoedd Duw, rhodd ein Harglwyddd Iesu Grist. Ac os na fydd un law ddynol yn dwyn rhodd i ni, nid ydym byth heb un i gofio am danom, tra fyddo genym efe, a'i ffydd, a'i gariad, a'i fywyd.

Egwyddor a ddadguddiai—yn mhob pwnc,
Mwy parch a goleddai
At y gwir, na'r tir, na'r tai,
Na'r aur sy'n hudo rhywrai.—ESSYLLT I HIRAETHOG.

CRISTADELPHIAETH.

Mr. Gol.,—

Yr wyf wedi deall fod darllenwyr Yr Ymofynydd wedi cael hir ddigon ar Gristadelphiaeth a'i gwrthwynebwyr, a'i bod yn bryd bellach i osod terfyn ar ymdriniaeth nad oes dim llawer o ffrwyth i Undodiaid i ddysgwyl oddiwrtho. Yr wyf yn cytuno, ac ni fydd y bai arnaf fi os na fydd y gair hwn o'm eiddo yn air o ffarwel am byth i ddamcaniaeth a ystyriaf fi y tlotaf, y salaf, y mwyaf disail a mwyaf truenus sydd wedi ei chynnyg i hygoeledd dynion yn y 19eg ganrif. Fy safle i ar fater y *Parousia*, yr hyn yw canolbwynt y gyfundrefn yw hon:—Yr oedd braidd holl ysgrifenwyr y Testament Newydd yn ddiamheuol yn dysgwyl am ail-ddyfodiad allanol a gweledig Iesu Grist yn ystod eu hoes eu hunain i sefydlu teyrnas allanol ac i wobrwyo ei ganlynwyr, &c. Ceisiais brofi yn y Rhifyn diweddaf mai dyma olygiad Paul yn gystal ag eiddo Ioan yn Llyfr y Dadguddiad. Os ydyw Efengylau Matthew, Marc, a Luc, yn rhoddi adroddiad teg a ffyddlawn o eiriau Iesu Grist ei hun, mae'n canlyn fod syniad yr Apostolion yn cael ei gadarnhau yn addysgiadau eu Blaenor, a bod yr Iesu yn edrych yn mlaen at ei ail-ddyfodiad gogoneddus i'r ddaear yn fuan ar ol dinystr Jerusalem. Nis gall fod dadl ar y mater hwn, a chymmeryd yr hanes fel y mae. Mae'r geiriau yn rhy eglur a phenderfynol. Darllener yr adnodau canlynol o Efengyl Matthew a chymharer y rhai cydredol yn Marc a Luc. "Yn wir y dywedaf wrthych," wrth y deuddeg dysgyblion, pan yn eu hanfon ar genadwr i bregethu, "*na orphenwch ddinasoedd Israel* nes dyfod Mab y dyn."—Matt. x. 28. "Yn wir y dywedaf wrthych, *mae rhai o'r sawl sydd yn sefyll yma a'r ni phrofant angau* hyd oni welont Fab y dyn yn dyfod yn ei freniniaeth."—Matt. xvi. 28. "Ac yn y fan wedi gorthrymder y dyddiau hyny, y tywyllir yr haul, &c., ac yna yr ymddengys arwydd Mab y dyn yn y nef: ac yna galara holl lwythau y ddaear, a hwy a welant Fab y dyn yn dyfod ar gymylau y nef gyda nerth a gogoniant mawr, &c. Yn wir meddaf i chwi, *Nid â y genedlaeth hon heibio hyd oni wneler hyn oll.*"—Matt. xxiv. 29, 30, 34. Mae Proff. D. L. Evans yn naturiol yn teimlo fod Matt. xxiv. yn graig rwystr ac yn faen tramgwydd ar ei ffordd, ae mae'n defnyddio ei adnoddau mwyaf cywrain a chelfydd fel Proffeswr a dyn dysgedig i osgoi grym y dystiolaeth a rydd y bennod yn erbyn rhyw ail-ddyfodiad sydd etto mewn *reserve* yn y dyfodol. Yr wyf yn protestio yn ddifrifol yn erbyn y dull annheg o ymwneyd â'r Beibl a gawn ni ar dudalen 179 yn Rhifyn Awst. Mae'n rhyfedd o debyg i'r ystryw wleidyddol a elwir *Jerry-Mandering*, ac mae'n hollol afreidiol i gynnyg unrhyw wrthbrofion mewn cyhoeddiad ag y mae mwyafrif mawr ei ddarllenwyr yn coleddu golygiadau *rhesymol* am y Beibl. Digon yw dweyd nad yw yn bosibl i un rhagddywediad sydd yn y bennod trwy unrhyw "*gentle gliding*" gyfeirio at rywbeth sydd i gymmeryd lle yn mhen dwy fil o flynyddau mwy neu lai; oblegyd dywedir yn y geiriau mwyaf penderfynol yn adnod 34. "Yn wir meddaf i chwi, nid â y genedlaeth hon heibio *hyd oni wneler hyn* oll. Mae y dysgwyliad am y *Parousia* a

fynwesid mor wresog yn yr oesoedd boreu, wrth gwrs, wedi troi allan yn siomedigaeth, ac amser yr ail-ddyfodiad wedi myned heibio i beidio dychwelyd byth mwy; ac yn wyneb tystiolaeth ddiamheuol ysgrifeniadau y Testament Newydd, fel y dywed Dr. Martineau,* "mae y ddyfais dlawd o symud y *date* yn mlaen a'i ohirio *ad libitum* yn ochel-iad (*evasion*) nas gall foddloni un meddwl gonest." Awgryma y casgliad ydym wedi dyfod iddo un cwestiwn pwysig, ac nis gallwn ei gyfleu yn well nag yn ngeiriau y beirniad Ffrengig, Colani (Dyfynedig yn "Daniel: or the Apocalypse of the New Testament," by Philip S. Desprez, B.D., p. 292), "Onid yw yn amser i ddystewi twyll-ddadleuon esponwyr, ac addef yr hyn sydd mor amlwg. Nid yw yr Iesu, yn yr ymadroddion a briodolir iddo yn cyhoeddi yn unig mewn modd cyffredinol y bydd iddo ef ddychwelyd ar gymmylau y nef, ryw ddiwrnod yn mhen dwy fil, neu yn mhen deng mil o flynyddau, ond dywed y dychwela cyn y bydd i rai personau oeddent yn bresenol farw, a dychwela yn fuan ar ol i Jerusalem gael ei halogi. Os oes gan y geiriau yma a osodir yn ei enau ystyr, dyna ydyw yr ystyr; os nad dyna eu hystyr, mae gwyn yn golygu du, i rai duwinyddion, a du yn golygu gwyn; ond i bwy bynag nad yw yn dwyll-ddadleuwr *(Sophiste)* mae y cwestiwn dwybig yma yn cynnyg ei hun—A oedd yr Iesu wedi cael ei dwyllo, neu a ydyw'r ymadroddion yma yn perthyn iddo ef?" Felly Colani. Yr wyf yn meddwl yr addefa y rhan fwyaf, fod yr Iesu yn mhell uwchlaw y rhan fwyaf fu yn ysgrifenu am dano. Yr oedd ei ddysgyblion agosaf yn camsynied ei eiriau ar achlysuron, ac yn gofyn iddo y cwestiynau mwyaf anmherthynasol a phlentynaidd, fel yn Matt. xvi. 6, &c. Yr oeddent hwy wedi eu llyncu i fyny gan eu rhagfarnau Iuddewig, a syniadau Messianaidd eu hamser, ac nid oeddent yn gymhwys, fel y mae llawer amgylchiad yn ein dysgu, i amgyffred addysgiadau ysprydol yr Iesu. Mae'r addysgiadau hyn wedi dyfod i lawr atom wedi eu lliwio yn naturiol gan y cyfryngau anmherffaith trwy y rhai y trosglwyddwyd hwy, ac mae'r ymadroddion yn nghylch ei ail-ddyfodiad ydynt mewn gwirionedd yn annghysson ag addysgiadau ereill nas gall fod amheuaeth yn eu cylch, yn cynnrychioli syniadau a gobeithion ei ddysgyblion y rhai oeddent yn dymhorol a materol, tra yr oedd ei deyrnas ef yn ysprydol, ei ddyfodiad i fod yn ysprydol, a'i arosiad yn ysprydol gyda'i ganlynwyr "bob amser hyd ddiwedd y byd." Yn hytrach, ynte, nâ chredu fod yr Iesu wedi cael ei dwyllo, mae'n well gyda fi i gredu na fynwesodd ef erioed un dysgwyliad am unrhyw ddyfodiad allanol, ond mai ol-feddwl ydoedd hwn a feithrinwyd ar ol ei ymadawiad gan ei ddysgyblion yn awyrgylch gobeithion Messianaidd eu hamser, ac a adlewyrchwyd yn ol ganddynt yn eu cofnodion o ddywediadau eu Hathraw. Hwn yw y golygiad a fynwesir gan Davidson, Martineau, M. Arnold, Vance Smith, W. R. Alger, Estlin Carpenter,† yn nghyd â lluaws ereill nad oes genyf fi gyfleusdra i ymgyng-

* Loss and Gain in Recent Theology, Appendix p. 14.

† Introduction to the Study of the New Testament by S. Davidson, D.D., 2nd Ed., vol. i., p. 402. Loss and Gain in Recent Theology by James Martineau, Ll.D., appendix, p. 13. Literature and Dogma by M. Arnold, 2nd Ed., p. 156,&c. Spirit

hori â'u gweithiau. Priodol yw dweyd mai nid y *New School* fel Martineau a Carpenter yn unig sydd yn mabwysiadu y golygiad hwn. Mae Meyer, yr hwn a gydnabyddir yn gyffredinol fel tywysog esponwyr diweddar, o'r un farn er gwaethaf ei *orthodoxy* (Gwel Critical and Energetical Handbook of the Gospel of Matthew gan Dr. Meyer, Vol. II., p. 163. Gweler hefyd Higginson's spirit of the Bible, II, 301—3).

(2) Mae y gwahaniaethau sydd yn dyfod i'r golwg yn ysgrifeniadau y Testament Newydd gyda golwg ar y dygwyddiadau sydd i ddylyn y *Parousia* yn dangos nad oes yma syniadau unffurf a sefydledig ar y materion hyn, ond eu bod yn ymffurfio ac yn cyfnewid yn ol tybiau, dychymmygion a thueddiadau meddyliol y gwahanol awdwyr. Sonia y Proff. am yr adgyfodiad cyntaf a'r ail-adgyfodiad ar sail llyfr y Dadguddiad, yr hwn sydd yn dysgu mai y saint Cristionogol a adgyfodir yn gyntaf ar ddyfodiad Crist, fel y byddont i deyrnasu gydag ef fil o flynyddau. Dyma'r adgyfodiad cyntaf. Os edrychwn ni i ysgrifeniadau Paul nid yw'r mater o gwbl yn glir. Ymddengys oddiwrth rai ymadroddion o'i eiddo mai dim ond y duwiol sydd i gyfranogi yn yr adgyfodiad cyntaf. Ond mae ymadroddion ereill yn cario ystyr wahanol, megys "Rhaid i ni oll ymddangos gerbron brawdle Crist, fel y derbynio pob dyn y pethau a wnaethpwyd yn y corff, yn ol yr hyn a wnaeth, pa un bynag *ai da ai drwg*."—2 Cor. v. 10. "A chennyf obaith ar Dduw, yr hon y mae y rhai hyn eu hunain yn ei ddysgwyl, y bydd adgyfodiad y meirw, i'r cyfiawnion ac i'r annghyfiawnion."—Actau xxiv. 15. Yn Matt. xxiv. a xxv. nid oes un crybwylliad am adgyfodiad o gwbl. Yr etholedigion a sonir am danynt yw y rhai byw sydd yn credu. Y byw sydd yn cael eu barnu, rhai i fwynhau bywyd tragywyddol, ac ereill i ymostwng, nid i ddifodiant fel y myn y Proff., ond i "gospedigaeth dragywyddol." Nid yw yn glir hefyd oddiwrth ysgrifeniadau Paul mai ar y ddaear y bydd y sant yn teyrnasu. Nid yw 1 Thessaloniaid iv. 17, yn benderfynol ar y mater. Mae 2 Cor. v. 1, yn awgrymu syniad gwahanol: "ni a wyddom os ein daearol dŷ o'r babell hon a ddattodir fod i ni adeilad gan Dduw, sef tŷ nid o waith llaw, tragywyddol *yn y nefoedd*." Mater arall yw'r milflwyddiant, y cyfnod o fil o flynyddau a osodir i lawr yn llyfr y Dadguddiad, pan y carcharir Satan ac y teyrnasa'r saint mewn heddwch. Nid oes un cyfeiriad at y fath amser yn yr Efengylau. Ymddengys fod Paul yn 1 Cor. xv. 24., yn dysgu fod rhyw yspaid rhwng dyfodiad Crist a'r diwedd pan y rhydd efe y deyrnas i'r Tad; ond nid yw Paul mewn un modd, fel y dywed y Proff., yn neidio dros ben mil o flynyddau yn yr adnod yna. Mae yspaid lawer llai yn ddigonol at yr amcanion a ddesgrifia efe fel yn cael eu cyflawnu ar yr amser hwnw. Ac yna y daw i'r golwg wahaniaeth pwysig rhwng Paul ac Ioan yn llyfr y Dadguddiad. Mae y cyfnod, nad yw Paul yn gwybod dim am ei hyd, yn cael ei gymmeryd i fyny gan ryfel parhaus yn erbyn galluoedd gwrth-

---

and Word of Christ by G. Vance Smith, B.A., D.D., &c., p. 58. A Critical History of the Doctrine of a Future Life by W. R. Alger, 10th Ed., p. 679. Life in Palestine when Jesus Lived by J. Estlin Carpenter, M.A., pp. 177—178.

wynebol. Mae yr Iesu y pryd hwn yn dileu pob pendefigaeth, awdurdod a nerth, ac mae yn teyrnasu hyd oni osodo ei holl elynion dan ei draed. Ond mae Ioan yn dysgu fod y milflwyddiant yn gyfnod o heddwch, ac o wynfydedigrwydd, nad oes dim yn aflonyddu ar ei fwynhad; fod Satan wedi ei rwymo ac yn annalluog i gario ei waith yn mlaen am fil o flynyddau. Wedi i'r cyfnod ddyfod i fyny mae Satan yn cael ei ryddhau, ac mae yn myned allan i dwyllo y cenedloedd, &c., ond yn cael ei orchfygu yn y diwedd, a therfyn yn cael ei osod ar ei gynllwynion am byth. O dan y penawd hwn nid wyf ond wedi rhoddi ychydig enghreifftiau, ond digon feddyliaf i ddangos nad yw yn bosibl i adeiladu cyfundrefn unffurf a chysson ar sail addysgiadau ydynt yn dangos y fath amrywiaeth.

(3) Mae damcaniaeth y Proff. mor ddyeithr a rhyfeddol fel yn sicr y dylai ddwyn yn mlaen brofion mwy nerthol nâ'r hyn a gasglir oddiwrth esponiadaeth sydd nid yn unig yn ansicr ond yn benderfynol yn ei erbyn, fel yr ydwyf wedi dangos. Tystia hanes fod y rhai sydd wedi ymddybynu ar y cynllun yma o esponio llythyren y Beibl, a cheisio llygadrythu i'r dyfodol yn ngoleuni ei broffwydoliaethau wedi eu twyllo yn waradwyddus. Tua diwedd y ddegfed ganrif yr oedd dysgwyliad cyffredinol yn mysg Cristionogion am ryw gyfwng ofnadwy, ac yr oedd calonau dynion yn crynu gan ddychryn wrth feddwl am yr amser pan y byddai'r Diafol yn cael ei ryddhau. Pasiodd yr awr benderfynol heibio yn hollol ddidwrw, a chafodd dynion wared ar yr hunllef ofnadwy oedd wedi bron a'u llethu. Cafodd yr esponiwr enwog J. A Bengel, awdwr y Gnomon, yn y ganrif ddiweddaf allan fod terfyn y deg mis a deugain yn llyfr y Dadguddiad i gymmeryd lle ar yr 21ain o Fai, 1810, a dyfodiad Crist y 18fed o Fehefin, 1836, ac y buasai'r diafol yn cael ei rwymo hyd y flwyddyn 2836. Ond ni welwyd yr un cyfnewidiad, ac mae y diafol, yn ol y Proff., yn fwy bywiog yn awr nag y bu ef erioed yn hanes y ddaear. Daeth Dr. Cumming i'r maes yn yr oes bresenol gyda'r un egwyddorion esponiadol, a chyda'r un canlyniadau, fel mae llawer o honom yn cofio. "Mae pobpeth yn parhau fel yr oeddynt o ddechreuad y greadigaeth." Ac yn awr mae Proff. Evans yn honi, gyda chymmaint o hyder a neb o honynt, ein bod ni yn nesu yn gyflym at draed delw Nebuchodonosor, ac mae fel pe byddai yn clywed trwst adenydd yr angel â'r seithfed phiol, a'r llef yn gwaeddi "Darfu;" ac yr ydym ninau yn gwenu. Pwy sydd debycaf o fod yn iawn?

(4) Mae yr erthygl yn bygwth myned yn faith, yn lle bod yn fyr fel y bwriadwn, ac felly, ni wnaf ddim ond crynhoi tufewn i gylch bychan y sylwadau pellach oeddent wedi ymgynnyg i mi. Yr oeddwn wedi bwriadu sylwi ar yr elfen ddiofn o anffyddiaeth sydd yn nodweddu syniadau y Proff.—anffyddiaeth nad yw gwadu y gwyrthiau ac adgyfodiad corff Crist o'r bedd ar fore y trydydd dydd ddim ond chwareu plant yn ei hochr. Mae Cristadelphiaeth y *Bessimistiaeth* fwyaf diobaith. Nid yw yn gweled un da o dan y nefoedd, ac y mae y byd yn myned yn gyflym at y diafol, a chyflymach yr elo, goreu i gyd. Yn panedd addysg uwchaf ac addfetaf, tueddiadau mwyaf gogoneddus yr

oes hon, mae yn gwadu fod dyn yn greadur sydd yn myned ar gynnydd, ac yn ceisio amddifadu yr hiliogaeth o bob gobaith am y byd yma, yr hyn yw egwyddor pob cynnydd. Mae yn ddiffygiol mewn pob amcan moesol, ac yn hollol amddifad o'r dueddfryd foesol, yr *ethical passion*, sydd wedi bod yn ddirgelwch cryfder Cristionogaeth trwy yr oesau, ac wedi ei chadw yn fyw yn nghanol yr holl lygredigaethau a dirywiadau y mae wedi bod yn ddarostyngedig iddynt. Mae Cristadelphiaeth yn addoli *force* a thrais, ac yn y pethau yma yn unig y mae ei hymlynwyr yn gobeithio. Yr unig ddaioni a ddysgwylia y saint a sefydlir trwy foddion naturiol ac nid moesol. Tra mae gallu gwirionedd a chariad wedi ei dreio yn ofer am ddeunaw canrif, y mae teyrnas nefoedd i gael ei sefydlu yn y diwedd trwy drais anwrthwynebol. Ar ol gweled fod adnoddau moesol ac ysprydol Cristionogaeth wedi eu dihyspyddu, bydd y cynllun yma yn cael ei daflu heibio, yr Eglwys Gristionogol fel *public company* wedi myned yn *fankrupt*, yn cael ei *windo* i fyny, y cyfrifon yn cael ei setlo, a'r Cristadelphiaid, wrth gwrs, yn cael yr yspail i gyd iddynt eu hunain. Yn awr, yn yr holl syniad yma mae elfen ddiofn lechwraidd o anffyddiaeth guddiedig. Nid yw yn credu fod unrhyw allu moesol ac ysprydol yn perthyn i Gristionogaeth. Dylai Crist wybod yn well nâ phregethu y bregeth ar y mynydd, a thaflu perlau ei addysg i blith haid o bublicanod a phechaduriaid. Pa ddefnydd oedd mewn rhedeg ar ol y defaid colledig, a *wastio* ei eiriau mwyaf tyner a thoddedig yn achos y Mab Afradlawn? Yr oedd y dosparthiadau hyn yn hollol ddiobaith yn amser yr Iesu, ac nid oes yr un dosparth arall yn y dyddiau presenol. Mae y byd *i gyd* erbyn hyn *out of joint*, ac nid yw wiw son am allu moesol ac ysprydol Cristionogaeth fel moddion i orchfygu drygioni â daioni. Mae Cristadelphiaeth yn dweyd wrth y byd, "Yr ydym ni yn gwybod nas gall Cristionogaeth trwy ei harfau cnawdol byth eich curo. Ond cymmerwch chwi ofal, fe gymmerwn ni afael yn eich arfau chwi ryw ddiwrnod—arfau cnawdol—ac fe'ch concrwn yn y man, a bydd Crist yn frenin yn ei deyrnas." Ond nid yw yn amlwg y gorfodir dynion i blygu trwy ddatguddiad o allu anwrthwynebol nad ydynt yn plygu i Grist ac yn ei barchu, ond yn plygu i drais, ac yn addoli hwnw? Os yw Crist i gael ei osod ar ei orsedd trwy gyfrwng gallu anfeidrol ac anwrthwynebol, yna nid Crist fydd yn teyrnasu, ond yn hytrach y gallu a'r trais sydd wedi ei godi i'r orsedd.

(5) Yr oeddwn wedi bwriadu sylwi hefyd ar *dramatis personæ* Cristadelphiaeth—Duw, Crist, a dyn—y syniadau isel, annheilwng, y mae yn fynwesu am y tri. Y mae yn arddangos Duw sydd wedi methu—Duw sydd yn llywydd ar fyd bron myned yn *wreck*. Gosododd ef i gychwyn yn berffaith iawn ar y dechreu, ond cyn iddo ddysgu cerdded braidd, fe lithrodd; ac y mae Duw oddiar hyny yn gorfod gwneyd rhuthrgyrchoedd yn awr ac eilwaith er mwyn gosod y peiriant yn *right*. Cyfryngodd mewn modd dinystriol yn amser Noah, ond trodd ei ymyriad allan yn fethiant. Gwaethygu mae y byd wedi wneyd byth oddiar hyny, ac mae yn waeth byth oddiar hyny, ac mae yn waeth heddyw nag y bu erioed. Nid oes un gobaith iddo, ond trwy

wneyd *clean sweep* o'r sefyllfa bresenol o bethau, a'i adnewyddu o'r *top* i'r gwaelod. Onid syniad isel am Dduw yw yr uchod—syniad sydd yn nodi *stage* isel mewn dadblygiad? Os ydym ni yn gwybod rhywbeth am ffyrdd Duw yn y greadigaeth, nid dyna y cynllun mae ef yn gweithio arno. Nid oes y fath beth a chyfnewidiad disymwth yn ei ddull ef o weithredu, ond dangosir y *continuity* perffeithiaf yn holl flaenfynediad y greadigaeth. Nid yw natur fel y dysga y wybodaeth uwchaf yn cydnabod y fath beth a *catastrophism* neu ryw ddymchweliad disymwth, ond yn hytrach ddadblygiad graddol a thawel yn ei holl symmudiadau. Duw sydd yn ddeddf ac yn gariad ydyw tystiolaeth ymwybodolrwydd uwchaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ie, yn gariad, ac nid yw y syniad yn goddef y fath *libel* ar gymmeriad y Tad mawr a bod yn bossibl iddo (fel y dywed Proff. Evans ar dudalen 252, Rhifyn Tachwedd,) i orchymyn tad i offrymu ei blentyn iddo, neu genedl i wneyd *wholesale butchery* o genedl arall mor anwyl yn ei olwg ef a hithau. I'r "wadd ac i'r ystlumod" yr elo y fath farbareidd-dra. Er ys rhyw ddwy flynedd yn ol, cymmerodd dyn yn yr Unol Dalaethau i'w feddwl ei fod yn clywed llais ei Dduw yn ei orchymyn i offrymu ei blentyn, ac yn ei benboethni, mewn efelychiad o Abraham, syrthiodd ei gyllell ar wddf ei ferch fechan ac fe'i hoffrymodd—gweithred a lanwodd y wlad â syndod a dychryn, wrth feddwl fod y fath ofergoeliaeth atgas a gwaradwyddus yn parhau i aros yn staen ar ein gwareiddiad. Nid wyf wedi sylwi fod y diafol yn ffigro yn nghyfundrefn y Proff. Yn wir, nid oedd ei eisieu. Nis gall y diafol fod lawer yn waeth nâ'r Moloch yma o Dduw sydd yn caru gwaed plant diniwed; ac yr wyf yn credu fod mwy o *honour* yn y diafol a bortreadir gan Milton fel nad ymostyngai i ofyn offrwm o blentyn oddiwrth neb a fyddai o dan ei awdurdod.

Dywed y Proff. mewn amrywiol fanau fod y byd hwn yn myned ar ei waeth—dirywiad parhaus yn cymmeryd lle mewn cymdeithas; yr wyf yn casglu hefyd mai yr un fath ydyw hi yn y nefoedd, ac nis gallwn ddysgwyl llai, gan mai yr un bod sydd yn llywodraethu yn y ddau le. Er enghraifft, adnabyddid Iesu Grist ar y ddaear yma fel yr addfwyn a gostyngedig o galon—ei gydymdeimlad a'i dosturi at y gwaethaf o'i frodyr yn annherfynol. Un o nodweddion ei addysg oedd cariad at elynion, sylwedd ei grefydd oedd cariad at Dduw a chariad at ddyn, a dangosodd mai nid rhyw *sentiment* ddiflanol o'i eiddo, ond mai egwyddor arosol oedd, trwy ei hamlygu yn ei awr fwyaf profedigaethus, wrth farw ar y groes, pan y gweddiai, "O Dad, maddeu iddynt, canys ni wyddant beth y maent yn ei wneuthur." Mae oddeutu deugain mlynedd yn pasio heibio. Mae yr Iesu ar ddeheulaw Duw, yn mwynhau cymdeithas nefol angelion ac arch-angelion, a'r holl ysprydoedd sanctaidd a pherffaith sydd yn gweini wrth yr orsedd dragwyddol; ac ar ddiwedd y deugain mlynedd mae ef wedi cwblhau ei addysg fel *milwr* (gwel tudalen 179, Rhifyn Awst), ac yn dyfod allan, er yn anweledig, i fod yn *commander-in-chief* ar fyddin Titus Vespasian pan yn ymosod ar y genedl Iuddewig. Mae yr hwn a gyfenwid ar y ddaear yn Dywysog Tangnefedd, cariad gwladgarol yr hwn fu unwaith yn deor

dros Jerusalem yn y geiriau tyneraf mewn llenyddiaeth ddynol, mae hwnw yn awr yn cyfeirio gallu haiarnaidd Rhufain yn erbyn calon ei genedl, ac yn cymmeryd y rhan flaenaf yn y rhyfel mwyaf ofnadwy a gwaedlyd sydd yn llychwino tudalenau hanes. "Nid felly y dysgasom ni Grist," ac yr wyf yn gofyn i'r Proff. pa le mae yr *evidence* dros fod Iesu Grist yn *field-marshal* Titus Vespasian yn y rhyfeloedd Iuddewig. Y mae rhyw lun o hanes yn dweyd fod y Duwiau yn cymmeryd rhan yn rhyfel Caerdroia, a Castor a Pollux yn cynnorthwyo y Rhufeiniaid yn mrwydr llyn Regillus; ond y mae y syniad fod Iesu Grist wedi cymmeryd i fyny swydd filwrol yr hen dduwiau paganaidd yn hollol wreiddiol i'r Proff. A thybed mai Crist yw *Sar Sarim* llyfr Daniel (viii. 25), a'r brenin y cyfeirir ato yw Titus Vespasian, yr hyn nad yw o gwbl yn wir, mae y geiriau yn gosod allan yn blaen am y brenin, "Efe a saif *yn erbyn* tywysog y tywysogion," neu y *Sar Sarim*, ac nis gellir, ond trwy *freak* esboniadol, a dweyd y lleiaf, gael allan fod y brenin a'r *Sar Sarim* yn cydweithredu. Wel, deuwn yn mlaen etto i'r flwyddyn 2000, mwy neu lai i gyfnod yr ail ddyfodiad. Mae addysg yr Iesu fel milwr wedi ymberffeithio o hyd. Mae ei galon wedi caledu at ddyn *yn gyffredinol* erbyn hyn, serchiadau mwyaf gogoneddus ei natur ar y ddaear wedi eu dileu, a pherffaith elyniaeth wedi cymmeryd eu lle. Mae yn ymddangos yn nghanol taranau a daeargrynfaoedd; mae catrodau o luoedd anorchfygol yn ei ganlyn; mae yn gyru ei gerbyd buddugoliaethus fel ysgubell ddinystriol dros holl wledydd y byd, ac nid yw y difrod, yr anrhaith, a'r trueni a achosodd Napoleon I. ond chwareu plant wrth ochr gorchestion y rhyfelwr hwn. Ah! os ydwyf fi wedi adnabod rhywfaint o'r galon hono oedd ar y ddaear yma yn fflam gan frwdfrydedd i geisio ac i achub yr hyn a gollasid, yr wyf yn credu yn sicr pe byddai yr Iesu yn dyfod ar y ddaear unwaith etto, y dewisai efe, yn hytrach nâ darostwng trwy drais, dinystrio, difodi, a chodi ei orsedd ar adfeilion dynoliaeth, y dewisai yn hytrach rodio trwy ddyffryn darostyngiad unwaith etto, yn "wr gofidus a chynnefin â dolur," dyoddef dygnboenau rhyw ail Gethsemane, a gostwng ei ben unwaith etto ar ryw ail Galfaria dros iachawdwriaeth dynion, oblegyd "Iesu Grist yr un ydyw y ddoe, heddyw, ac yn dragywydd." Iachawdwriaeth Cristadelphiaeth, yn mha fodd y mae yn cael ei sicrhau? Fel pob coelgrefydd, iachawdwriaeth trwy *magic* ydyw. Mae bedydd trwy drochiad yn anhebgorol, y mae yn debyg. Rhaid i chwi groeshoelio eich rheswm a'ch synwyr cyffredin, cau eich llygaid, a llyncu, a pheidio bod yn *barticular* fel Pedr gyda'r llenllian hono, ac yna, ond i chwi alw eich hun yn Gristadelphiad, neu yn frawd yr Arglwydd, a bod yn ffyddlon mewn amser ac allan o amser i gyhoeddi gwaeau yr Apostasia uwchben pob un nad yw yn credu fel chwi, fe fydd gyda chwi rywfaint o *chance*, ond ychydig yw, er hyny. *Life-boat* yw Cristadelphiaeth i bigo i fyny ryw ychydig etholedigion o'r *wreck* yn "bobl i'w enw." Dyna fel y dywed y Proff., ac y mae hyna yn cael ei gadarnhau mewn nodyn a ymddangosodd yn y *Christian Life* er ys ychydig yn ol, fel y canlyn:—"Dywedodd cyfaill oedd wedi gadael y sect Gristadelphaidd wrthym yn ddiweddar nas gellid amgyffred braidd mor

gyfyng yw cylch y rhai sydd i gael eu hachub. Yr oedd ef wedi clywed un o'u pregethwyr yn dweyd ei fod yn amheu yn fawr iawn a fyddai rhagor na rhyw ddwsin o bedair miliwn pobl Llundain byth yn cyrhaedd maesydd y gwynfyd. Mae hyn yn adgofio yr ysgrifenydd o'r hen foneddiges Ysgotaidd oedd yn amheu iachawdwriaeth pawb ond ei hun a John, ac ambell waith yr oedd ganddi eu hamheuon am John. Ai dyna ganlyniad gwewyr yr holl oesau—ai dyna ffrwyth llafurus gariad saint a phroffwydi—ai rhywbeth diddim, anffrwythlawn, fel yna yw cynllun Duw yn Nghrist tuag at y byd. Na, 'choelia 'i fawr. Yr oeddwn wedi bwriadu sylwi ar *ddyn* Cristadelphiaeth, mewn cyssylltiad yn neillduol ag athrawiaeth y difodiant—"miserable doctrine," fel y geilw Baldwin Brown * hi, ond rhaid gadael y mater gyda'r un sylw hwn. Pan y bydd y Proff. wedi profi fod dyn yn ei hanfod yn farwol, a bod difodiad o unrhyw beth yn egwyddor yn nghreadigaeth Duw, bydd yn amser iddo y pryd hwnw i ddechreu bod yn *dogmatic* ar y mater. Mater arall y dylwn sylwi arno yn fyr yw afiachusrwydd y dybiaeth o ail ddyfodiad Crist a'i gamsyniadau. Mae yr arferiad parhaus mewn dyn i godi gwyn ei lygaid tua'r cymmylau fel unig ffynnonell ymwared oddiwrth ddrygau y byd, nid yn unig yn afiach, ond yn ddinystriol i gymdeithas. Pe byddai pawb yn mhobman yn cofleidio y dybiaeth yma, ac yn gweithredu yn unol â'u hargyhoeddiadau, byddai symmudiadau cymdeithas wedi eu parlysu, attelid olwynion masnach, darfyddai pob dyddordeb yn ngalwedigaethau bywyd, ac heb unrhyw gyfryngdod goruwchnaturiol, aethai y byd yma i ben o hono ei hun.

(6) Fel casgliad oddiwrth y cwbl, yr wyf yn dweyd nad yw Cristadelphiaeth ddim yn ffydd i ddynoliaeth. Nid oes ganddi un rhan yn ngwaith gwirioneddol y byd. Y mae y byd yn *wreck* ar suddo. Nis gall eglwys sydd yn gorphwys ar y syniad yma feddwl am achub ond rhyw un yma ac acw. Nid yw ei cheuadwri at ddynoliaeth fel cyfangorff. Nid oes ganddi obaith am ddyn. Y mae wedi rhoddi i fyny gwasanaethu y byd, ac adeiladu teyrnas Dduw ar y ddaear fel y mae. Y mae yn efengyl o addewid i ryw ychydig, ond yn efengyl o ddarostyngiad, o warth, ac o ddifodiant, i filiynau ar filiynau sydd wedi llafurio ac wedi dyoddef ar y ddaear.

(7) Un sylw terfynol gyda golwg ar ddechreuad (*origin*) y dybiaeth am y *Parousia*. Dywed y Proff. nad yw i'w chael yn yr Hen Destament (tudalen 227, Rhifyn Awst). Fe gyfrifa y ffaith fod y Proff. yn newyddian yn ffydd yr ail ddyfodiad am y sylw hyna. Cyfeiriais yn y Rhifyn diweddaf at y Parousia yn namegion Balaam. Ni ddywedais hyny heb awdurdod, ac yr wyf mewn sefyllfa i alw sylw at dri o esboniadau † ar lyfr y Salmau sydd yn sylfaenedig ar yr egwyddor hon,

---

* The "Doctrine of Annihilation in the Light of the Gospel of Love," by J. Baldwin Brown, B.A.

† The Book of Psalms, with notes, &c., by Samuel Horsley, Bishop of Norwich. London, 1833. Commentary on the Psalms, Critical, &c., by W. De Burgh, M.A. 2009 Dublin, 1860. A Translation and Exposition of the Psalms, by John Fry, B.A. London, 1842.

"Fod yn yr oraclau cyssegredig yma gan mwyaf gyfeiriad uniongyrchol at Grist ac at ei gyntaf a'i ail ddyfodiad." Yr wyf yn gobeithio y bydd y Proff. yn ddiolchgar am y cyfarwyddyd hwn hyd y nod oddiwrth *youngster*, ac y gwna y llyfrau yma, ar ol ymgynghori â hwy, roddi cyfeiriad newydd i'w fyfyrdodau. Ond os nad oedd y syniad yn yr Hen Destament, ac os ar un pryd y dysgwylid yn mhlith yr Iuddewon y byddai "Crist i aros yn dragwyddol," onid yw yn naturiol i'w ddysgyblion, ar ol siomedigaeth ei ymadawiad oddiwrthynt, feddwl a dysgwyl am ei ail ddyfodiad, ac yn y modd hyny i aros gyda hwy yn dragwyddol. Nid yw y dysgwyliad yma yn gyfyngedig i'r Testament Newydd. Y mae wedi codi yn naturiol mewn gwledydd ac oesau gwahanol, pan y byddo y *soil* briodol i'w feithrin yn sefyllfa a meddyliau dynion. A ydyw y Proff. yn cofio am "ystori boblogaidd Morganwg," a adroddir yn mywyd Iolo Morganwg gan Waring, am y Cymro a'r ffon gollen a gyfarfyddodd â swynwr ar bont Llundain, yr hwn a'i cyfarwyddodd at y man y tyfodd y gollen yn Nghraig y Ddinas, lle yr oedd mynediad i ogof, yn yr hon yr oedd y Brenin Arthur a'i farchogion yn cysgu ac yn dysgwyl i'r gloch i ganu fel *signal* iddynt i ddeffroi a myned allan i ymlid y Sacsoniaid o'r wlad? Dyna ail ddyfodiad y Brenin Arthur yn chwedloniaeth yr hen Frythoniaid, ac mae Tennyson wedi gweithio allan yr *idea* yn "Idylls of the King." Mae yr un *idea* wedi ei chymmeryd i fyny mewn cyssylltiad â "Hiawatha," gan Longfellow. Pan aeth Cortes a'r Yspaeniaid i Mexico, yr oedd y Brenin Montezuma a'i ddeiliaid yn edrych am ddyfodiad rhyw ddyn rhyfeddol o'r Dwyrain, yr hwn oedd wedi teyrnasu drostynt o'r blaen, a'r hwn, pan ddeuai drachefn, a sefydlai oes euraidd, llawn heddwch a gwynfydedigrwydd. Dywedir fod y Pueblo Indians yn New Mexico yn ddiweddar iawn yn arferol bob bore o fyned i ben y bryn i edrych ar yr haul yn codi, ac yn dysgwyl o'r cyfeiriad hwnw eu llywodraethwr hirddysgwyliedig i ail ddychwelyd i'w gwaredu oddiwrth eu gelynion, a'u codi i fyny o'u dadfeiliad fel cenedl. Am flynyddau a blynyddau ar ol marwolaeth Charlemagne, yr oedd y bobl gyffredin dros yr holl ymherodraeth yn dysgwyl y deuai yn ol heb fod yn hir i adeiladu i fyny etto ei deyrnas oedd wedi syrthio. Yr oedd sect yn Rwsia yn ddiweddar iawn a elwid yn Napoleoniaid. Yr oeddynt yn elynion chwerw i'r ymherodraeth ac i'r Eglwys Rwsiaidd, a chan mai Napoleon oedd gelyn mwyaf enwog Rwsia, darfu iddynt ei fabwysiadu ef fel y Messiah, a'i addoli fel y cyfryw. Ni chredent ei fod wedi marw o gwbl, ond ei fod yn ymguddio rhywle yn y Dwyrain, ac y deuai yn ol ryw ddiwrnod i orchfygu Rwsia, a'u gwneyd hwy yn etholedigion ei lys. Fel yna y mae y dybiaeth am ail ddyfodiad rhyw berson godidog, fel yn ystori William Tell, wedi cylchynu y byd, ac mae yn hawdd ei hadnabod fel *myth*. Y syndod gyda Christadelphiaeth yw, ei bod wedi cymmeryd i fyny yr holl chwedloniaeth sydd wedi ymgasglu oddiamgylch cnewyllyn bywiol Cristionogaeth, yr hyn yw cariad at Dduw a dyn, arweinyddiaeth Crist yn y bywyd moesol ac ysprydol, dyledswydd ac anfarwoldeb, ac wedi taflu ymaith fel yn ddiwerth bobpeth ynddi sydd yn sylweddol, yn arosol, ac yn gyffredinol.

Llandyssul, Tachwedd y 18fed, 1884. W. JAMES.

Y "V VAWR" AC AP IOAN.

Mr. Golygydd,—Bum beth amser cyn penderfynu ai doeth ai annoeth fyddai i mi gymmeryd sylw o frol y V Vawr yn "Nghwdyn y Saint," yn yr Ymofynydd am Hydref diweddaf. Meddyliais, o'r diwedd, y buasai dystawrwydd yn *insult* iddo, ac felly yr wyf yn gwastraffu rhyw ychydig o'm hamser i ysgrifenu y llinellau canlynol, gan obeithio y gwnewch chwithau wastraffu rhyw ychydig o'ch gofod er iddynt gael ymddangos yn yr Ymofynydd am Ragfyr. Yn gyntaf, ymddengys mai nid amcan y V Vawr oedd eich cynnorthwyo chwi, Mr. Gol., yn y tipyn dadl dibwys sydd rhyngom parth ystyr a thadogaeth y gair Saesneg *Church*, oblegid cyfaddefa "eich bod yn abl i gymmeryd gofal o honoch eich hun." Pe na byddech yn alluog i wneuthur hyn, ychydig gynnorthwy a allech ddysgwyl oddiwrth y V Vawr, ond gan nad oeddech wedi gwaeddi '*sistance*, pa beth allai fod amcan y V Vawr os nid torfynyglu ar unwaith ac yn ddiseremoni ei hen ysgolfeistr annheilwng, Ap Ioan, *poor fellow?* Pe byddai rhyw un fel fi, a aned ac a faged yn nghanol y brwyn a'r eithin mân, a'm dillad yn sawrio gan fwg mawn, a'm *good manners* ddim yn amgen nag eiddo bugeilhaid Penmoel-lemoer, yn beiddio son am *etiquette*, fy marn fyddai mai anfoesgar i'r eithaf oedd i'r V Vawr ymyru rhyngoch chwi a mi; ond y mae awdwr "Cwdyn y Saint" ac ail lyfr y diarebion yn uwch awdurdod ar y mater hwn. Nis gwyddwn mai y V Vawr oedd tad-bedydd yr *Unitarian Church* yn Llanbedr hyd nes daeth yr hyspysiad pwysig hwnw allan o "Gwdyn y Saint," ond pe yn gwybod hyny, yr wyf yn amheu a fuasai i mi gymmaint o gymhorth gras attaliol fel ag i ymgadw rhag ysgrifenu yr hyn a ysgrifenais.

Beth am y "chwysu yn nghymmydogaeth y *stove* yn ngholeg enwog Pont Shân?" Dywed y V Vawr mai nid da i'r byd gael gwybod yr achos o'r chwysu. Digon tebyg fod y V Vawr yn gwybod am lawer gwir goreu ei gelu heblaw hwn. Fy nghred yw na chwysodd y gwr boneddig erioed o herwydd un gwres tufewnol a deimlai, nac ychwaith wrth ddarllen a myfyrio, oblegyd, os cofiwyf yn iawn, ni fu hyn un amser yn waith caled iddo; ac ni chwysodd erioed o herwydd ofn ei athraw am fod ei wersi yn anmharod—yr oedd ei natur yn *proof* i hyn; ond efallai weithiau y gwnai poethder y *stove* pan yn wynias beru i'r V Vawr demlo a chwysu rhyw ychydig; mae haiarn poeth yn darostwng hyd y nod y llewod a'r *tigers*.

"Coleg enwog Pont Shân." Os oedd coleg enwog Pont Shân, yn enwog mewn unrhyw fesur, ac os, ie, *os* cyfranodd y V Vawr rywfaint tuag at ei enwogrwydd yn yspaid tymhor ei efrydiaeth ynddo, yr wyf yn ystyried y dylwn fod yn ddiolchgar iddo. Ond mwy *hynod* nag enwog, ysgatfydd, oedd hen goleg Pont Shan wedi y cyfan. Er i fagad o ddynion ieuainc gael eu haddysg foreuol yno, y rhai erbyn heddyw ydynt ddefnyddiol a pharchus yn eu gwahanol gylchoedd, fel meddygon, officiriaid, pregethwyr, *bankers*, masnachwyr, siopwyr, morwyr, ysgolfeistri, &c., etto hefyd, bu yn gynniweirfa llawer o benbwliaid

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

YR

YMOFYNYDD:

CYHOEDDIAD MISOL AT WASANAETH

UNDODIAID CYMRU.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD—CYFROL IX.—1884.

ABERDAR:
JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, &c., 16, COMMERCIAL PLACE.

CYNNWYSIAD.

Aderyn Du, Yr 110
Adgyfodiad y Corff 121
Addysg y Deuddeg Apostol.... 119, 138, 157
Amser 224
Anerchiad 1
Angladdau 82
Arfau ein Milwriaeth ni (Pregeth W. T.) 217, 241

Barker am ei Rieni 214
Beddargraffiadau 92, 167, 183
Beecher 69, 80, 94, 164
Beibl, Y 214
Bywgraffiad D. Thomas, Ysw. 173
" E. W. Humphreys.. 65, 95
" J. Jones, Gellifaharen.. 211

Cattwg Ddoeth 143
Cerfiwr Bach 10
Cred Undodwr 42
Crefydda a Diota 181
Cremation 59
Cristadelphiaeth 13, 268, 233, 267
Cwdyn y Saint 233
Cyfarfodydd Chwarterol.. 35, 125, 173, 245
Cymmeriad y Cyfiawn 101
Cynnulliad y Cysgodau..... 8
Cysgu 118

Dafydd ab Gwilym 94
Defosiwn 150
Dyfyniadau o'r Efelychiad o Grist.. 8
Duw Cariad yw 189
Duwinyddiaeth Gywir 61
Dwy yn Malu..... 165
Dynol Flodeuyn, Y 183

Evans (Proff.) ar ei Gyfnewid Barn 32
" ar y Dyb Gyffredin am Deyrnas Nefoedd 52
" ar Deyrnas Dduw 84, 104
" Y Ddau Adgyfodiad 130
" Dyfodiad Crist..... 152
" Y Parousia 177, 204, 225
" Paham y cymmerodd ei fedyddio 251
" Adolygiad..... 280
Eglwys y Dyfodol 196, 220
Ein Geneth gu 210
Ein Hysgolion Sul..... 236
Elfen Drydanol, Yr 255
Emyn Francis Thomas yn Saesneg 215
Etholedigaeth Paul 193

Fy Mabanod 248
Ffrancaeg, Y 60

Geirdarddiad 16, 60, 118, 202
Gofyniad 45, 187
Gohebiaethau 46
Golygydd ac Ap Ioan 202
Greadigaeth, Y 17
Grym Penderfyniad 57
Gwibfeddyliau Pen fy Mlwydd 81

Helpu yn mlaen 28

Loyola 38
Llewelyn (Sion) o Goedycymmer .. 111

Manion a Hanesion 21, 46, 70, 94, 118, 142, 167, 191, 214, 239, 262, 286
Marwgofion.... 24, 48, 72, 96, 120, 144, 168, 192, 216, 264, 288
Meudwy 137
Montefiore, Syr Moses 110
Myfyrdodau Diwedd Blwyddyn.... 63

Nac esgeuluswch eich Cydgynnulliad 41
Natur Eglwys..... 107
Nes i Dre'..... 52
Nodynau Gwasgarog.... 15, 40, 58, 92, 115, 134, 140, 165, 239

Pregethau W. T. 145, 169, 217, 241
Psalmau (Gwersi) 56, 88, 113
Pump Tymhor Oes Dyn 62

Rees, D. J., o Loyd Jack 90
Rees Owen ac Abraham 141
Rhaid fod Gwahanol Sectau 163
Rhoddion Nadolig..... 265
Rhydyparc..... 123, 125, 127, 163

Sectariaeth 165
Sefydliad y Parch. George Evans .. 33
Sefydliad yr Achos yn Rhydyparc.. 279
Seiniau'r Nefoedd 34
Sul y Drindod..... 189
Swmbwl 42

Tai Bychain a Phreswylwyr Mawrion 97
Telyn Dewi 66, 76, 134, 249

Ulrich Zuingli 13, 29
Undodiaeth, Gwerthfawrogi 75
" Beth yw 73
" Pregethu 18, 43
" yn Nghymru 25, 49

Wicliffe 184, 228

Ymddiried yn Nuw 201
Yr Ymgnawdoliad 4
Y V Vawr ac Ap Ioan 276

anhyblyg am flynyddoedd meithion, ac am y rhai y gellir dweyd "Megys yr oeddent yn y dechreu y maent yr awr hon;" ond nid wyf wrth hyn yn golygu lai nad yw y crwtyn oedd yn Mhont Shân gynt wedi tyfu yn ddyn erbyn hyn, ac yn dad plant, a'i fod trwy ei ysgolheigdod dihafal wedi graddio yn uchel ac *with honours* yn V Vawr, Oxon.

Buais i, Mr. Gol., pan yn ieuanc mewn chwech neu saith o ysgolion, a than ofal rhyw ddwsin o athrawon o bryd i bryd, o'r rhai nid oes yn awr ond un ar dir y byw, a hwnw tu draw i'r Môr Werydd, yn crymu tua'r bedd dan bwysau y dyddiau blin a'r blynyddoedd annyddanus, i'r hwn mae genyf barch diffuant, a bydd coffadwriaeth y rhai sydd wedi ymadael yn anwyl i mi tra fyddo dim yn anwyl i mi ar y ddaear hon. Os ydys i farnu wrth lythyrau "Cwdyn y Saint," y mae y V Vawr o'i uchelder fry, fry, yn edrych i waered gyda dygasedd a *scorn* ar ei hen ysgolfeistri. Am danaf fy hun fel ysgolfeistr gynt yn Mhont Shân, nis gallaf ddysgwyl i'w fawredd wneuthur llawer o gyfrif o honof, ond meddyliwyf y gallasai ac y dylasai fod yn fwy hynaws a boneddigaidd tuag at y Proffeswr D. L. E. Gan nad pa beth am ddechreu a diwedd y frwydr fawr yn ngholeg Caerfyrddin flynyddau yn ol, yr wyf yn meddwl y dylai yr oll o hyny gael syrthio i ebargofiant dan leni y gorphenol. Mae efrydwyr yr amser hwnw, os oll yn fyw, yn wasgaredig erbyn heddyw, ac o Broffeswyr y pryd hwnw nid oes ond y Parch. D. L. Evans yn fyw. Y mae yntau wedi encilio o fywyd cyhoeddus, yn pererindodi mewn unigedd comfforddus wrth odreuon mynyddoedd Pencarreg a Llanybydder, yn heneiddio, yn aeddfedu i ogoniant, ac yn prysur ddysgwyl dyfodiad Mab y Dyn. Y mae yn gywilydd i'r V Vawr, pe medrai gywilyddio, ei fod yn trin yr hen Broffeswr parchedig yn "Nghwdyn y Saint" fel pe ddim yn amgen nag *ignoramus* dirmygadwy! Ond beth wy'n chwalu? Mewn llythyr a ymddangosodd yn y *South Wales Daily News*, nid yw y llafurtawr a'r dysgedig Dr. Owen Pughe, er yn ei fedd, yn cael ei goffhau ond gyda chryn ddiystyrwch gan y "crwt" hunanol hwn. Digon tebyg nad oedd y diweddar Dr. Owen Pughe, mwy nag un dyn marwol arall, uwchlaw syrthio i gamsyniadau weithiau, ond pwy ond y V Vawr a ddywedai am dano "*as often wrong as right?*" Etto, o herwydd fod Proffeswr Earle wedi newid ei farn o barthed i dadogaeth y gair *Church*, dywed yn ysgornllyd mewn llythyrenau Italaidd fod y Proffesswr "*ar hyn o bryd* yn dweyd mai y gair Lladin *crux* (*crucis*) yw gwreiddyn y gair *church*, oblegyd yr adeiledid gynt yr addoldy ar lun y groes." "Ar hyn o bryd," ïe, sylwed y darllenydd ar y geiriau Italaidd, "*ar hyn o bryd*." Onid oes yma, Mr. Gol., awgrymiad noeth mai rhyw greadur anwadal ac anaeddfed ei farn yw Proffeswr Earle, ac nad yw yn awdurdod o werth ar darddiad geiriau. Digon tebyg na fydd y V Vawr yn hir cyn taflu ei linyn mesur dros holl Broffeswyr Rhydychain, a'u cael yn llai o faintioli nâ'u cyfrifir hwynt yn y byd llenyddol yn gyffredin; ac yna ymgrymed pawb i lawr i enw awdwr dysgedig "Cwdyn y Saint."

Yr wyf o'r farn, Mr. Gol., fod y V Vawr wedi darllen yr ysgrif, "Y Golygydd ac Ap Ioan," yn Yr Ymofynydd am Medi diweddaf yn rhy

frysiog ac esgeulus o lawer, ac felly, wedi gwneuthur cam anfwriadol âg ef ei hun. Yr wyf yn meddwl hefyd na theimlwch chwithau eich bod dan un rhwymedigaeth iddo am yr hyn a wnaeth, oblegyd y mae yn gwanhau yn hytrach nag yn attegu eich achos. Yr ydych chwi wedi dywedyd yn eithaf penderfynol mai gwreiddyn y gair *church* yw *Kuria-Kon* (*Kurios*—Arglwydd), ac nad ydyw yn golygu *cynnulleidfa*. Dywed y V Vawr fod y Proff. Earle yn *bresenol* yn golygu mai *crux* (*crucis*) croes yw gwreiddyn y gair, ond nad yw "yn gwybod am neb arall o'r un feddwl." Digon tebyg nac oes, oblegyd y mae gwybodaeth y V Vawr yn lled eang. Dywed hefyd yn mhellach fod Lipsius, Garnett, ac ereill, o'r farn fod y gair *church* yn perthyn i *circus* (*circle*—cylch), ac yn gyfystyr ag ef. Y mae y V Vawr yn cymmeradwyo yr olwg hyn ar dadogaeth y gair fel yn fwy rhesymol nag un arall, ac felly, Mr. Golygydd, yn fwy rhesymol nâ'r eiddoch chwi. Nid yw wahaniaeth genyf fi gymmaint pa beth yw gwreiddyn unrhyw air os gallaf wybod ei ystyr y pryd a'r lle y defnyddir ef. Yn hyny mae y pwys mwyaf, er mai dyddorol iawn yw olrhain hanes geiriau a'u hystyron yn nghwrs y cyfnewidiadau y maent wedi myned trwyddynt yn nhreigliad oesau lawer. Yn yr oll wyf wedi ysgrifenu ar y mater yr wyf wedi ymattal rhag dywedyd dim yn benderfynol fy hunan am darddiad y gair *church*, ond anturiais ddywedyd fod awduron yn amrywio yn eu barn ar y pwnc; a dyna y V Vawr yntau â'i "Gwdyn" wedi rhoddi ergyd ofnadwy ar eich pen chwithau, ond gobeithio na fydd yn farwol. Hyn yr wyf wedi ei ddweyd, ac yr wyf yn ei ddweyd yn awr, ac mi a'i dywedaf etto hyd nes caffwyf fy argyhoeddi i'r gwrthwyneb, mai ystyr y gair *church* tua'r flwyddyn 1611 pan y cafwyd y cyfieithad Seisnig awdurdodedig presenol, oedd *cynnulleidfa*, yn ol barn y pedwar-ar-ddeg-a-deugain cyfieithwyr, gan nad beth oedd ei ystyr wreiddiol, a chan nad yn mha ystyr y defnyddir ef yn bresenol gan siaradwyr ac ysgrifenwyr; a chan mai yn yr ystyr o *gynnulleidfa* y defnyddir ef yn y Testament Newydd, yr wyf yn beiddio dweyd mai mewn ystyr anysgrythyrol y gelwir tŷ addoliad yn *church*. Yr wyf yn gobeithio nad yw hyn yn un achos tramgwydd i'r cyfeillion Undodaidd yn Llanbedr nac mewn un man arall.

Yr ydych chwi, Mr. Gol., yn gwybod yn eithaf da na ddywedais i erioed yr hyn y mae y V Vawr yn ei briodoli i mi, sef "eich bod chwi yn sefyll ar eich pen eich hun pan yn defnyddio y gair *church* am yr adeilad, ac nid am yr eglwys." Yr hyn a ysgrifenais I (gwel YMOFYNYDD, tudalen 204) oedd, "Os na wnewch chwi, Mr. Gol., byth ddefnyddio y gair *church* ond yn yr ystyr o dŷ yr Arglwydd, ... byddwch ar eich pen eich hunan braidd yn mhlith y cannoedd a'r miloedd sydd yn ysgrifenu ac yn siarad am yr eglwys, am y *church* fel corff o ddynion wedi eu galw a'u dewis allan o'r byd i fod yn Gristionogion ac yn saint Duw." Er bod yn deilwng o hono ei hunan, dylasai y V Vawr fod wedi darllen fy ysgrif yn fwy gofalus.

Dywed y V Vawr hefyd fy mod yn beio "pobl Brondeifi am eu bod yn enwi eu haddoldy yn *Unitarian Church*, oblegyd fod y gair *church* yn anysgrythyrol." Nid wyf wedi eu beio o gwbl, a phe gwelai y V

Vawr yn dda i ddarllen rhyw bedair llinell o'm hysgrif yn nhudalen 202 o'r YMOFYNYDD, darllenai fel y canlyn :—"Ni ddywedais fod dim allan o le o du y cyfeillion yn galw yr addoldy yn *church*, ond ei fod yn anysgrythyrol," ac yn anysgrythyrol o herwydd "Yn ol fel y mae y gair yn cael ei ddefnyddio yn y Testament Newydd, nid y tŷ yw yr eglwys neu y *church*, ond y lle yn mha un mae yr eglwys, neu y *church*, neu y gynnulleidfa, yn cyfarfod i addoli." Nid yw y gair *church* yn anysgrythyrol yn yr ystyr o'i absenoldeb o'r Ysgrythyr, oblegyd cyfarfyddir ag ef yn aml yno, ond yn anysgrythyrol ar gyfrif yr ystyr a roddir iddo pan ddefnyddir ef fel enw ar yr *adeilad*, megys *Unitarian Church* a'r cyffelyb. Rhaid fod y V Vawr yn hanner cysgu pan ddarllenodd fy ysgrif, ac yn mron ymrwygo neu *bursto* gan wynt hunanoldeb cyn y dywedai wrth orphen ei "Gwdyn," "Hyn yn fyr ac i bwrpas." Yr wyf o'r farn, Mr. Gol., mai caredigrwydd mawr ynoch fyddai cynghori y V Vawr i gymmeryd Gwilym Evans· Quinine Bitters am dipyn o amser.

Yr eiddoch yn ffyddlawn,

Tachwedd y 5ed, 1884. AP IOAN.

SEFYDLIAD YR ACHOS YN RHYDYPARC.

MR. GOLYGYDD,—

Anwyl Syr,—Byddaf ddiolchgar am gongl fechan o'r YMOFYNYDD i wneyd rhai sylwadau ar ysgrif T. L. R., a ymddangosodd yn y rhifyn am Mehefin diweddaf. Nid oes a fynwyf yn yr ysgrif hon â'r sylwadau yn yr ysgrif hono ar eiddo Dr. Rees, Abertawe. Yr hyn sydd a fynwyf ag ysgrif T. L. R. yw cywiro rhai ffeithiau y mae efe trwy anwybodaeth wedi eu cymmysgu, ac felly, yn annghywiro pethau. Ymddengys ei fod yn ystyried yr ymraniad fu yn amser y Parch. W. Griffiths a'r Parch. W. Evans, fel cyfnod ac achlysur dechreuad yr achos yn Rhydyparc. Dyma yr amryfusedd y syrthiodd iddo. Y terfysg cyn hyny, yn amser y Parch. John Griffiths, y tad, oedd cyfnod ac achlysur sefydliad yr achos yn Rhydyparc. Cymmerodd hyny le tua chanol ei weinidogaeth. Yr oedd achos y terfysg yn ddeublyg—ymryson yn nghylch athrawiaeth, ac ymrafael yn nghylch dysgyblaeth. Barnai rhai personau fod y Parch. J. Griffiths yn rhy Galfinaidd, ac yr oedd anfoddlonrwydd yn nghylch dysgyblaeth rhyw berson. Yr oedd yr wrthblaid yn nghylch dau-ar-bymtheg o bersonau. Nid oeddent yn Arminiaid o gwbl yr adeg hon, ond yr hyn a ystyrir yn awr yn Galfiniaid cymmedrol. Ni choffheir am Dafydd Phillips fel llefarwr y pryd hwnw yn nghofiant y Parch. J. Griffiths. Y ddau lefarwr a'r arweinwyr oeddent Daniel Griffiths a Rees Llwyd. Yr oedd yr olaf yn frawd i Dafydd Llwyd, henadur a phregethwr derbyniol iawn yn Nhrelech. Yr oedd Rees Llwyd yn ysgolhaig gwych, wedi derbyn ei addysg yn Ysgol Rammadegol Hwlffordd. Bu yn cynnorthwyo y Parch. Edmund

Jones, Ebenezer, Pontypwl, pan oedd hwnw yn hen; ac wedi ei farwolaeth, ymfudodd i'r America, a bu yn gweinidogaethu yno hyd ddiwedd ei oes. Pa bryd y dechreuodd Dafydd Phillips bregethu, neu lefaru, fel y dywedid y pryd hwnw, nid yw yn hyspys. Wedi yr ymadawiad o Glandwr y sonir am dano fel llefarwr; ac wedi marw o'r Parch. Owen Davies, efe a gymmerodd y flaenoriaeth, ac *fe urddodd ei hun yn weinidog arnynt.** Nid oedd efe yn arweinydd y blaid ar yr ymadawiad o Glandwr. Bu yr ymraniad hwn tua chanol gweinidogaeth y Parch. J. Griffiths, yr oedd hyny tua'r flwyddyn 1786. Yr oedd Dafydd Phillips tua 35 mlwydd oed yr adeg hono. Fe adeiladwyd Rhydyparc, mae yn debyg, tua dwy flynedd wedi yr ymraniad. Un hynod oedd Dafydd Phillips, a phethau lled ryfedd a ddywedir am dano. Carai ysgrifenydd y nodiadau hyn weled mwy o fanylion ei fywyd. Dywed T. L. R. fod Dafydd Phillips yn pregethu flynyddau yn Glandwr fel pregethwr cynnorthwyol, ac iddo fyned i fyw i Pantglas, ac mai yno yr oedd pan y trodd allan o Glandwr, ac mai yno yr oedd yn byw pan y dechreuodd bregethu yn Rhydyparc. Os oedd efe, fel mae yn debyg ei fod, yn flaenor gyda'r rhai a ddechreuasant achos Rhydyparc, nid troi allan o Glandwr a wnaeth, ond *cael* ei droi allan; ac os oedd yn llefarwr yn Glandwr, onid oedd yn llefarwr pan ddechreuwyd achos Rhydyparc? Byddai yn ddymunol cael mwy o'r manylion. Yr eiddoch,—

BESICHTIGER.

ADOLYGIAD.

SYR,—

Yn ol fy addewid yr wyf yn rhwym etto o *ymostwng*, fel y dywed Mr. James, i wneyd sylw o'i erthygl yn Rhif. Tachwedd. Teimlaf yn ddiolchgar iawn iddo am ddyfod i'r maes yn fy erbyn. Os oes neb a all siglo fy seiliau, credaf y byddai efe mor debyg o lwyddo â neb.

Nid allaf ddirnad paham y *titla* ei erthygl "Cristadelphiaeth." Er nad oes gwaradwydd o'r enw, ni chrybwyllais ef, os wyf yn cofio, ond dwywaith neu dair, a hyny yn ddamweiniol. Fy mhwnc i yw y *Parousia*, neu ddyfodiad yr Arglwydd Iesu Grist yn weledig i'r byd yr ail waith i sefydlu Teyrnas, yr hon, yn mwriad Duw, sydd i ddarostwng, "i falurio," "i ddileu," pendefigaethau y Cenedloedd. Oni wyr Mr. James fod llawer, heb fod yn Gristadelphiaid, na chlywed son erioed am yr enw, wedi bod yn credu yr athrawiaeth ysgrythyrol hon? Gallaf enwi un yn mhlith yr Undodiaid, a hwnw yn mhob ystyr gyda'r dysgedicaf yn ei oes, ac yn wr cadarn hefyd yn yr Ysgrythyrau—yr enwog Dr. Priestley. Mae ei enw yn lleng.

---

* O'r braidd y gallwn gredu fod ein gohebydd yn golygu y sylw hwn yn anngharedig. Mae rhai o bregethwyr mwyaf llwyddiannus ein gwlad na fuont erioed dan ddwylaw esgob. Beth sydd mewn ordinasiwn?—GOL.

Nid oes achos i mi fod yn faith. O leiaf, ni chymmeraf i fyny chwech tudalen o'r YMOFYNYDD. Er fod sylwadau Mr. James yn ei erthygl yn dra chymmysgedig, meddwl wyf y gellir ei *swmio* yn agos i gyd dan y pedwar pen canlynol :—

1. Brawddegau *smart.*
2. Peth yn dal mwy o berthynas â fy hun nac â'r pwnc.
3. Honiadau heb erioed gael ei profi yn wir.
4. Yn olaf, pethau yn dal mwy neu lai o berthynas â'r pwnc.

Dan y pen cyntaf gellid nodi brawddegau o'r fath hyn,—"Wedi boxo'r *theological compass* droion yn ol ac yn mlaen." "Dyddiau hafaidd teyrnas y mil blynyddoedd . . . . . yn Isaiah, Bismarc, Napoleon, a'r Mahdi." "Llyfr breuddwydion, neu *puzzle-book* Chineaidd ydyw'r Beibl." "Daniel O'Connell a'r hen *fisherwoman* hono yn Dublin, pan y galwodd hi yn *equilateral triangle*, ac yr haerodd â llais difrifol mai'r peth tebycaf yn y byd oedd ei bod yn cadw *hypotenuse* yn ddirgel yn y *garret.*"

Cyfarfyddir yn dra chyffredin â brawddegau o'r natur hyn yn rhai erthyglau papyrau newyddion yr oes, ac os nad wyf yn camsynied mae ysgrifenwyr y *New School* yn dra hoff o honynt, ond nid wyf yn dyweyd hyn fel un dirmyg. Meddylia llawer o ddarllenwyr cyffredin fod rhyw ddyfnder synwyr mawr yn y fath frawddegau ffraeth, tra nad ydynt o nemawr gwerth rhagor nâ chwyddo a llanw yr erthygl.

Nid ymddengys i mi fod cyplysu enw y proffwyd Isaiah, un o brif genadwyr Jehovah at ei genedl wrthnysig, ag enwau y fath ddynion â Bismarc, Napoleon, a'r Mahdi, yn dangos, a dyweyd y lleiaf, *taste* uchel iawn yn unrhyw ysgrifenydd, yn enwedig yn un a gymmer arno bregethu yr Efengyl. Edrycha i fi fel ergyd cyfrwys at y Beibl i'w dynu i lawr i *lefel* llenyddiaeth ddynol, ond pell wyf o gredu mai hyn oedd bwriad Mr. James.

Mai yr honiad mai "*secret* mawr Cristadelphiaeth yw, mai rhywbeth tebyg i lyfr breuddwydion, neu *puzzle-book* Chineaidd ydyw'r Beibl," yn dangos na wyr Mr. James nemawr yn ei chylch. Mae yn wir fod y Cristadelphiaid yn darllen rhyw gyfran o'r Beibl yn rheolaidd bob dydd, ac yn ei astudio, ond pell ynt o edrych arno yn y goleu a hona Mr. James eu bod. Nid peth canmoladwy yw cyhuddo unrhyw gorff o Gristnogion difrifol, na neb, o ffolineb, a hyny ar antur.

Ond beth am y *theological compass* yma wyf, mae yn debyg, wedi "boxo droion yn ol ac yn mlaen ?" *Compass* o amgylchedd tra helaeth yw hwnw, wyf yn meddwl, er na welais i erioed 'mo hono. Rhaid fod ynddo Babyddiaeth, Calfiniaeth, Arminiaeth, Ariaeth, Sosiniaeth, Undodiaeth, ac ni wn i faint yn rhagor. Gan fy mod wedi boxo y *compass*, fel y dywed Mr. James, rhaid fy mod wedi *treio* pob sect ac enwad, am eu bod oll yn amgylchedd y *compass*, a chan fy mod wedi boxo droion o weithiau yn ol ac yn mlaen, rhaid, wedi i mi fyned drosodd unwaith, i fi fyned yn fy ngwrthol eilwaith, a hyny yn ol ac yn mlaen droion o weithiau. Rhyw ddyn rhyfedd wyf, yn ddiau ! Yr oeddwn i,

ffol-ddyn ag wyf, gyda golwg ar Benaduraeth ac Undod y Tad Nefol yn meddwl yn wastad mai Undodwr fuais erioed. A ydyw yr Undodiaid oll o'r un farn ar bob pwnc crefyddol? Yr ydych yn addef fod Dr. Martineau wedi cyfnewid ei farn cyn hyn, "ond yn cadw ei wyneb tuag yn mlaen." Oni allaf finau hefyd, er wedi cyfnewid fy marn ar rai pynciau, fod yn cadw fy wyneb yn mlaen, ond nid yn yr un cyfeiriad â'r Doctor? Ond, efallai, wedi'r cyfan, mai *hyperbole*, neu fath o ormodiaith, er mwyn dyweyd rhywbeth *smart*, yw *compass* Mr. James. Mae *hyperbole* yn beth o'r goreu yn ei lle priodol, ond dylid gochelyd ei defnyddio ar gost y gwirionedd. Ond i fyned yn mlaen.

Yn yr ail ddosparth mae honiadau am danaf fy hun. Yr wyf yn saernio *frame work* adeilad i'r Beibl a Christadelphiaeth i drigo ynddo fel brodyr yn nghyd. Yr wyf yn gwyrdroi'r Ysgrythyrau. Yr wyf yn ansafadwy yn fy ngolygiadau crefyddol. Yr wyf yn portreadu breniniaeth yn fy mreuddwydion, &c.

Gyda golwg ar yr adeilad, yr wyf, mae'n debyg, yn saernio, yr wyf yn sicr na fydd gwrthwynebiad gan y Cristadelphiaid i'w cyfaill goreu gael rhan o hono. Gallaf sicrhau i Mr. James na chwympant hwy ddim i maes, oblegyd maent yn hen gyfeillion. Ond methaf weled pa gyssylltiad sydd rhwng honiadau o'r fath â'r pwnc, sef fy ngolygiadau yn nghylch Teyrnas Dduw. A ydynt yn Ysgrythyrol? Dyma'r cwestiwn. Y Beibl sydd yn saernïo'r adeilad, nid myfi.

Yr wyf, mae'n debyg hefyd, yn rhyw freuddwydiwr annghyffredin yn ng olwg Mr. James, ac yn gwneyd pethau mawr yn fy mreuddwydion—dim llai nâ phortreadu breniniaeth! Fynychaf mae dynion yn breuddwydio am y pethau sydd yn gwasgu fwyaf ar eu meddwl yn y dydd. Addefaf fod llawer o'm myfyrdod yn cael ei roddi i'r pwnc dwys hwn, ac os wyf yn breuddwydio am dano, nid yw ryfedd. Ond pa fodd y daeth Mr. James i wybod fy mod? A ydyw yn ddyn hyspys? Nid fi sydd yn portreadu: egluro y portread yn y Beibl wyf fi.

Yn y trydydd lle, mae honiadau nad ydynt erioed wedi eu profi yn wir. Dyweda na chafodd Efengyl Ioan ei chyfansoddi cyn y flwyddyn 150. Mai achos ei chyfansoddiad oedd, am fod y dysgwyliad am y *Parousia* wedi colli ei rym. Hefyd, i'r Dyddanydd gymmeryd lle y *Parousia*. Ac mai oddeutu yr un amser y cyfansoddwyd Ail Epistol Petr.

Rhyw amser rhyfedd am *forgers* oedd oddeutu y flwyddyn 150, os yw gwir yr honiadau uchod, ac y mae Mr. James yn eu gwneyd yn ddibryder. Nis gallaf credu na wyr Mr. James yn eithaf da am y ddadl sydd wedi bod yn nghylch iawn-awduroldeb Efengyl Ioan, ac nad yw y cwestiwn wedi ei benderfynu hyd y dydd heddyw. Paham ynte yr hona mor ddibryder mai yn y flwyddyn 150 y cyfansoddwyd yr Efengyl hon, fel pe na byddai dadl yn ei chylch? Ymddengys i mi, o leiaf, fod y dystiolaeth dros mai yr Apostol Ioan yw ei chyfansoddwr, yn annghydmarol gryfach nag y mae yr ochr arall wedi allu ddwyn yn mlaen i brofi mai *forgery* ydyw. Os wyf yn barnu yn iawn, mae honiad Mr. James yn nghylch y Dyddanydd a dyben y *forgery* yn cwympo i'r llawr. Am ail Epistol Petr, yr wyf wedi dyweyd fy meddwl o'r blaen.

Dan y pedwarydd pen mai rhai sylwadau ar Luc xvii. 21 ; Ioan xvii. 36 ; ac ar adnodau yn yr Epistol cyntaf at y Thessaloniaid, ond nid yw Mr. James yn cynnyg gwrthbrofi cywirdeb fy esponiadau i arnynt. Dylasai wneyd hyn, oblegyd maent yn dal cyssylltiad agos â'r pwnc. Gyda golwg ar ateb yr Iesu i'r Phariseaid, sylwais na allasai fod yn meddwl fod Teyrnas nefoedd o fewn dynion a eilw yn rhagrithwyr, gwiberod, a'r cyffelyb. Nid yw Mr. James yn dyweyd dim yn erbyn hyn. Sylwais hefyd, fel prawf ychwanegol, na allasai Teyrnas Nefoedd, yn ol y dyb boblogaidd, fod yn mhlith yr Iuddewon yn amser Crist, oblegyd dywedir am ddammeg y gwr boneddig (Luc xix. 11) "a aeth i wlad bell i dderbyn teyrnas ac i ddychwelyd," iddi gael ei thraddodi am fod rhai yn credu "yr ymddangosai teyrnas Dduw yn y fan." Rhaid gan hyny nad oedd y deyrnas yn eu plith y pryd hwnw. Nid yw Mr. James yn cynnyg amheu cywirdeb y sylw hwn hefyd. Nid yw ychwaith yn amheu cywirdeb fy sylw mai neshau oedd teyrnas nefoedd, a'i bod yn mhlith yr Iuddewon y pryd hwnw yn mherson y Messiah fel ei chynnrychiolydd. Yn lle gwrthbrofi fy syniadau â rhesymau o'r Ysgrythyr, fel y dylasai, o leiaf, gynnyg, os nad yw yn meddwl fy mod yn iawn, yr unig sylw a wna yw fy mod yn gwyrdroi yr Ysgrythyrau. Dangosed yn mha fodd yr wyf wedi eu gwyrdroi.

Yn yr un modd fy sylwadau ar 1 Thess. iv. 15—17, ac ar 1 Cor. xv. 51—52, nid yw Mr. James yn cynnyg amheu eu cywirdeb. Yn unig ail adrodda eiriau yr Apostol, gyda'r sylw fy mod yn addef mewn effaith fod y Cristnogion yn dysgwyl dyfodiad *buan* eu Harglwydd, ac felly yn camsynied. Wrth gwrs yr wyf yn addef hyn, nid all neb lai. Nid oes amheuaeth nad oedd llawer, efallai, y mwyafrif yn mhob eglwys, yn llafurio dan y camsyniad. Oni wyr Mr. James fod yr Apostol yn ei ail lythyr at y Thessaloniaid yn cyfeirio yn bendant at y camsyniad hwn (ii. 2.), ac yn ceisio ei symmud trwy ddyweyd wrthynt nad oedd dydd Crist mor agos ag y meddylient, ond fod yn rhaid yn gyntaf i'r ymadawiad (*Apostasia*) gymmeryd lle, a datguddio y dyn pechod, mab y golledigaeth ? Sylwais fod y datguddiad hwn i redeg dros gannoedd o flynyddau, a'i fod heb gyrhaeddyd y diwedd etto, ond yn awr nad yw y diwedd yn mhell wrth bob argoelion. Nid yw Mr. James yn gwneyd un sylw o'm sylwadau. Dylasai wneyd hyn a dangos fy mod yn camsynied, os wyf o gwbl.

Nid yw ryfedd nad yw Mr. James yn amheu cywirdeb fy esponiadau ar y rhanau hyny o'r Testament Newydd ag sydd yn dysgu fod y *Parousia* yn egwyddor fawr ag sydd yn rhedeg trwyddo o'i ddechreu hyd ei ddiwedd. Dyma ei eiriau, ac y maent yn werth i'w hail-adrodd, a'u cofio. "Mae y Testament Newydd, yn ddiamheu, yn fy marn i, yn dysgu fod Crist i ddyfod yr ail waith i'r ddaear mewn dull gweledig a gogoneddus. Yr wyf yn cytuno yn hollol â'r Proff. ar y mater hwn . . . . . ond yr wyf yn beiddio annghytuno â'r Proff. gyda golwg ar amser y *Parousia*, a hyny ar sail y Testament Newydd. Yn ei olwg ef mae y *Parousia* o hyd yn y dyfodol . . . . . Yr wyf finau yn teimlo mor benderfynol â hyny fod yr Apostolion ac ysgrifenwyr y Testament Newydd yn ei ddysgwyl yn eu hoes eu hunain." Dyma

y ddadl rhyngom yn gymhwys. Nid wyf fi yn amheu, fel y dywedais, nad oedd y Cristnogion yn ei ddysgwyl i gymmeryd lle yn eu hoes hwy. Y ffaith yn unig oedd wedi ei ddatgudio iddynt hwy, ac nid yr amser. Dangosais na wyddai Crist eu hun ddim am yr amser pan oedd ar y ddaear cyn ei farwolaeth. Wedi ei esgyniad y daeth i wybod yr amser, ac nid oes dim amheuaeth ar fy meddwl i na chafodd Paul yr un fath ddatguddiad cyn iddo ysgrifenu ei ail lythyr at y Thessaloniaid. Os y gwel Rhoddwr bywyd fod yn dda, fel yr wyf yn gwir ddymuno, adferyd iechyd Mr. James ac estyn ei fywyd, ni ryfeddwn i fawr na ddaw efe etto i gydweled â fi yn nghylch yr amser.

Gofyna, "ai tybed fod amryfusedd cadarn wedi ei anfon arnynt (y Cristnogion cyntaf) fel y credent gelwydd er mwyn sicrhau eu ffyddlondeb i'r gwirionedd?" Dim o'r fath beth. Yn yr un modd y gallai Mr. James ddyweyd, am na welodd Duw yn gymhwys i ddatguddio i'r genedl Iuddewig natur dirgelion Teyrnas Nefoedd a ragfynegid gan y proffwydi, hyd nes y daeth y Messiah, a thrwy hyny yn ei gadael i ffurfio camsyniadau ffol yn ei chylch, ei fod wedi danfon arnynt amryfusedd cadarn fel y credent gelwydd. Ni ddywedais mai i sicrhau eu ffyddlondeb i'r gwirionedd y cuddiodd Duw amser y *Parousia* oddiwrth y Cristnogion cyntaf. Dywedyd wnaethum i *y dichon, ac i fod yn rhesymol meddwl*, pe gwyddent na chymmerai le dros hir amser, efallai, ddwy fil o flynyddau, na fuasent mor wyliadwrus ac ymdrechgar dros y ffydd. Cofied Mr. James mai dynion oeddynt. Nid peth o'r fath hyn ychwaith feddylia yr Apostol wrth "amryfusedd cadarn."

Gyda golwg ar sylw Mr. James mewn perthynas i orchymyn yr Apostol i Timotheus, sef y rhaid, yn ol fy ngolygiadau i am amser y *Parousia*, fod Timotheus "o hyd yn fyw, ac yn ddiwyd wrth y gorchymyn." Yn ol ei farn ef am y *Parousia*, addefaf fod y sylw yn eithaf priodol. Ond dylai gofio nad yw yr Iesu na'i Apostolion yn gwneyd un cyfrif o angeu naturiol y bywyd hwn, nac ychwaith o'r amser rhwng dydd marwolaeth a'r adgyfodiad. Pe fyddai fil neu gannoedd o filoedd o flynyddau, ni fyddai yn fwy i ni nag amrantiad llygad. Gallwn gael ryw feddylddrych am hyn oddiwrth yr amser a aeth heibio cyn ein geni. I ni nid yw ond megys dim. Y byw sydd yn canfod amser, nid y marw. Bydd ymddangosiad yr Arglwydd Iesu Grist i Timothy yn moreu yr adgyfodiad yn ymddangos fel pe dygwyddasai y dydd neu yr awr y bu farw. Dichon y gall y sylwad hwn am amser mewn cyssylltiad â'r rhai a hunasant fod o ryw gymhorth i arwain rhai o'r tywyllwch y maent ynddo, yn ol fy marn i, o barthed i amser ailddyfodiad Crist.

Sylwa Mr. James fy mod yn ei gynghori i osod o flaen Undodiaid Cymru ei resymau dros wrthod awdurdod anffaeledig y Beibl. Nid awdurdod "anffaeledig" ddywedais, ond dros wrthod yr Ysgrythyrau a'u hystyried ddim yn fwy nâ llenyddiaeth ddynol. Nid wyf fi yn credu hyn, am hyny Mr. James ddylai osod ei resymau o flaen darllenwyr Yr Ymofynydd. Un peth yn rhagor ar y pen hwn. Yn gymmaint ag i fod Mr. James yn credu nad yw awdurdod yr Ysgrythyrau ddim yn fwy nâ llenyddiaeth ddynol, onid cyssondeb fyddai ynddo i ddarllen yn

ei bwlpudau ar y Sabboth draethodau wedi eu cyfieithu o'r *Spectator*, neu y *Speaker*, neu ryw lyfrau ereill, yn gystal a phennodau o'r Beibl. Mae rhai o'r *New School* wedi bod yn gwneuthur hyn yn ddiweddar. Mae un o honynt hefyd yn ddiweddar wedi cyhoeddi llyfr yn cynwys crynodeb o draethodau o'r fath i'w darllen yn y pwlpud yn lle y Beibl. Maent yn *acto* yn gysson â'u cred, gan nad beth fydd y canlyniad, hyd y nod *Ichabod* uwch ben y drws. Ond cofier fod yr Iesu yn dyweyd, Hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim.

Sylwa Mr. James hefyd ei fod yn beth nodedig nad wyf yn olrhain y *Parousia* trwy Efengyl Ioan. Fy rheswm dros hyny oedd fy mwriad i fyned trwy lyfr y Datguddiad. Amgylchiadau a'm lluddiodd i wneyd hyny, ond os y derbynia y Golygydd ddigon o annogaeth i gario yn mlaen Yr Ymofynydd am y flwyddyn nesaf, fel yr wyf yn gobeithio, bydd yn dda genyf, trwy ei hynawsedd, gyflawni fy mwriad.

Yn olaf, "ond beth," medd Mr. James, "am hen bobl fel Schenkel, Baur, De Wette, Keim, Martineau, Davidson, &c., sydd yn dyweyd, 'Pe byddai Crist i ymddangos o gwbl, buasai wedi dychwelyd yn mhell cyn hyn.'" Ar ba sail y gwnant hwy yr honiad hwn? Mae yr *argument* yn profi gormod, Mr. James, am hyny yn profi dim. A myned yn ol i hanesiaeth gellid enwi dynion dysgedig yn eu hoes, a gredent yn gadarn mewn rheib-wragedd neu *witches*, am hyny yn ol yr *argument* hwn, mae rheibiaeth yn wir. Eto, gallwn enwi dynion yn byw yn yr oes hon ag sydd yn llawn mor ddysgedig â'r dynion da a enwa Mr. James, oll yn credu yn athrawiaeth y Drindod, o ganlyniad mae y Drindod yn wir, yn ol yr *argument* hwn. Gwyr Mr. James y ffordd i ymresymu yn gryfach na hyn.

Yn awr, Syr, wele fi yn terfynu. Caniatewch i mi ddiolch i chwi am agor tudalenau Yr Ymofynydd i'm llythyrau ac i Mr. James am ddyfod allau yn eu herbyn. Os na chant fawr derbyniad yn awr, byddant ar glawr yn yr oes a ddel, pan fydd eu hawdwr wedi myned i dir anghof. Nid oes neb a ŵyr eu gwallau yn well na fi, ond gwnaethum fy ngoreu yn ol yr amgylchiadau. Ond er yn ddigon anmherffaith, mae yn bossibl y byddant yn offerynol i agor llygaid deall rhai darllenwyr ymofyngar, a'u hanog i chwilio i mewn yn mhellach i athrawiaeth mor bwysig fel y tystiolaethodd yr Athraw Mawr o'r nef mai i'w chyhoeddi a'i hegluro y danfonwyd ef i'r byd. Bendith y Tad Nefol fyddo ar bawb a ymdrechant wybod dirgelion Teyrnas nefoedd, ac i gael rhan ynddi pan y del Mab y Dyn i eistedd ar orsedd ei ogoniant.

Birkenhead, Tachwedd 10*fed.* D. L. Evans.

Er i ni deithio y byd drosodd, yn chwilio am y prydferth, nis cawn ef, oddieithr i ni ei gario gyda ni.

Mae y rhan luosocaf o'r cysgodau a groesant ein llwybr trwy fywyd, yn cael eu hachosi trwy ein bod yn sefyll yn ein goleu ein hunain. O! 'r miloedd ydynt bron yn wastad yn sefyll a'u cefnau ar yr haul!

Yr adgof melusaf y dichon un dyn ei gael, yw yr adgof am brofedigaeth wedi ei wynebu yn llwyddianus yn mlynyddau ieuenctid.

Manion a Hanesion.

ARWYDDNODODD brawd Beethoven ei enw unwaith, er mwyn gwahaniaethu ei hunan oddiwrth ei berthynas mwy llwm, "Beethoven, landowner," ac er mwyn bod yn gyfartal ag ef ysgrifenodd y llall ei enw, "Beethoven, brain-owner."

YN y *Times* yr ymddangosodd yr hyspysiad hwn: "Gwnaiff offeiriad gwledig adrodd yr offeren (*mass*) unwaith yr wythnos er lles pwy bynag a ddanfono iddo y *Times* yn rheolaidd dranoeth i'r dydd y cyhoeddir ef." Beth feddyli *di* am hyny, ddarllenydd?

"'NAWR, 'rwy'n meddwl bod yn dda iawn, mamgu, gan fod y babi yma wedi dod; ni fydd mam yn caru iddi hi fod yn ddrwg, ac hi fydd os byddaf fi." Dyna ferch fach gall. Beth pe byddai i bawb ystyried ffrwyth esiampl drwg?

"Nid ydw i'n credu fawr yn y Beibl," ebe colegwr ieuanc wrth hen Gwacer. "A wyt ti yn credu yn Ffrainc?" "Ydwyf, nid wyf erioed wedi gweled Ffrainc, ond mae genyf ddigon o brawf fod y fath le." "Felly, nid wyt yn credu dim, oni fyddi di neu gyfeillion i ti wedi ei weled." "Nad wyf, bid sicr." "Welaist ti erioed o'th ymhenydd dy hunan?" "Naddo." "A wyddost ti am rywun sydd wedi ei weled?" "Na wn." "A wyt ti yn credu fod genyt ti ymhenydd?"

PAN ofynwyd i Morris, llywydd un o Dalaethau America gynt, am yr esponiad goreu o foneddwr, atebodd, "Chwi a'i cewch yn Psalm xv."

GALL unrhyw berson o alluoedd cymmedrol ysgrifenu pregeth hir; ond y mae ysgrifenu un fer yn brawf o athrylith.—*Congregationalist.*

PREGETHWR DA.—(1) Dylai allu dysgu yn eglur ac mewn trefn. (2) Dylai feddu pen da. (3) Gallu ymadrodd da. (4) Llais da. (5) Cof da. (6) Dylai wybod pryd i stopio. (7) Dylai fod yn sicr beth mae yn feddwl. (8) Aberthu corff a bywyd er ei wirionedd. (9) Dylai fyfyrio yn ddyfal. (10) A bod yn barod i gael ei feio a'i farnu gan bob un.—*Luther.*

"SUT yr ydych yn caru yr athrawes newydd, Charlotte?" "*Right noble,*" ebe Charlotte, "nid yw ddim gwaeth ganddi pa un fyddom yn gwybod ein gwersi neu peidio."

GWELL byw ar ychydig nâ gorfyw (gwastraffu) llawer.

"*Communist,*" medd rhywun, "yw dyn sydd yn dewis bwyta ei fara trwy chwys gwyneb rhywun arall."

DOCTOR call oedd yr un ddarfu *brescribo* i'r claf "A new bonnet, cashmere shawl, silk dress." Cafodd y claf welliant buan.

"BETH yw y rheswm fod pawb yn eich caru gymmaint?" ebe tad tyner wrth ei ferch chwe' mlwydd oed, pan yn ei chymmeryd i fyny yn ei freichiau, ac yn ei chusanu. "Wn i ddim yn wir," ebe hithau, "os nid am fy mod i yn caru pawb."

MOR bell ag y byddoch chwi yn troi dyddiau ereill yn ddydd Sul, mor bell, a dim yn mhellach, y mae genych chwi hawl i droi y dydd Sul yn ddyddiau ereill. —*Keble.*

"PAHAM na ddarfu i chwi osod rhai o'r pêr yna yn eich poced," meddai un bachgen wrth fachgen arall, "nid oedd yno neb yn gweled." "Oedd, yr oedd yno un. Yr oeddwn i yno fy hunan, ac nid wyf yn bwriadu gweled fy hunan byth yn gwneuthur dim sydd yn wael ac annheilwng."

"CNAFIAID tost yw ein hoffeiriaid ni," meddai Hindw wrth Ewropead. "Yr wyf yn talu yn rheolaidd i un o honynt am weddio droswyf, ond y mae y scempyn yn gweddio drosto ei hunan, ac yn fy *cheato* i."

Y BEIBL.—Gosodir y Beibl i lawer pwrpas. Dywedir fod siopwr yn Bangor yn cadw ei arian mewn Beibl, a dywed fod ganddo reswm da dros hyny. Ni feddyliai lleidr edrych yno am arian, a'r hwn sydd ddarllenwr y Beibl o ddewisiad, ni wnai ladrata."

Y FFORDD oreu i gondemnio arferion drwg yw arfer rhai da.

DYWED Jeremy Taylor fod miloedd o ddynion yn y byd yn treulio bywyd i gasglu yn nghyd lonaid llaw o ddrain i orwedd arnynt.

DYWED Sidney Smith fod rhai yn pregethu fel pe byddent yn tybied fod pechod i'w gymmeryd allan o ddynion yn debyg fel y cymmerwyd Efa allan o Adda, trwy eu gyru i gysgu.

ARWYDDAIR Arminiws oedd:—Cydwybod dda, paradwys yw.

FFORDD ganolig yw ymladd i benderfynu unrhyw gweryl, gan nad yw yn gwneuthur dim tuag at benderfynu pa un sydd yn iawn.

Y Don Iawn.—Cynghor hen bregethwr oedd peidio blino gormod yn nghylch tôn y llais, ond ceisio bod yn ddifrifol; fod pob un yn gwaeddi "Tân" yn y dôn iawn pan fyddo ei dŷ yn llosgi.

Dywedai Sant Basil fod y rhosynau yn Mharadwys heb ddrain cyn y codwm, a dywed pregethwr diweddar nad oedd dim mynyddau cyn i Adda bechu. Felly, gallwn ddiolch i Adda pan yn edmygu prydferthwch a rhamantusrwydd mynyddoedd hen Gymru, a gwneuthur rhywbeth arall pan yn teimlo pigyn draen y rhosyn.

Pan ofynwyd i Parker, Esgob Rhydychain, pa un oedd y corff goreu o dduwinyddiaeth, atebodd, "Yr un a'i galluoga yn oreu i gadw cerbyd a chwe' ceffyl."

Y foneddiges dduwiol: "Fachgen bach, a ydych chwi wedi eich bedyddio?" Pagan bach: "O ydwyf siwr, mam, mae genyf y nodau yma ar fy mraich."

Dyma eiriau rhyw druan o ddyn a dynodd ddiwedd arno ei hunan yn ddiweddar: "Geiriau olaf pechadur truenus. Dim i fyw er ei fwyn, clywais lais yn dywedyd, 'Yr wyf wedi blino ar y bywyd a'r corff hwn o glai.' Mae fy mywyd wedi bod yn felldith i mi. Yr oedd fy rhieni yn feddwon, ac am bedair blynedd ar ddeg bum yn byw mewn cartref gwael a thruenus. Nid oedd genyf neb i roi i mi air o gynghor da, a dylynais lwybr dinystr. Priodais un o'r menywod cywiraf a mwyaf caruaidd y gallai dyn ddymuno, ac etto, yr oeddwn yn anfoddlawn. Bydded fy nhynghed ofnadwy yn wers i bawb pobl ieuainc ar ffordd dinystr. Yr wyf yn gobeithio y maddeua Duw i mi fy mhechodau dychrynllyd, ac os oes unrhyw ddyn ieuanc ar y ffordd i ddinystr, y byddo fy nhynghed i yn foddion i'w achub cyn yr elo yn rhy ddiweddar, yw dymuniad difrifol pechadur rhwym am uffern."

Pan ddel angeu, y cymmodwr mawr, heibio, nid ein tynerwch yr ydym yn edifarhau o'i blegyd, ond ein caledwch.—*George Eliot.*

Meddai hen ffarmwr, "Os bydd dyn yn proffesu gwasanaethu yr Arglwydd, yr wyf yn caru ei weled yn gwneuthur hyny pan fyddo yn mesur y gwenith yn ogystal a phan fyddo yn gwaeddi haleluwia." D.S.—Mae y sylw yma yn bwrpasol at fesuriad pethau ereill heblaw gwenith. A ydych chwi yn deall?

"Yr wyf yn annghofio llawer o bethau ydynt yn dygwydd yn nghwmpas blwyddyn," meddai merch ieuanc a'r dagrau yn treiglo dros ei gruddiau; "ond nis gallaf byth annghofio y geiriau anngharedig a ddefnyddiais tuag at fy anwyl fam sydd yn awr *wedi marw!*"

Mae y Talmud yn llefaru yn gryf yn erbyn y cyfryw hyny ydynt yn pregethu yn brydferth ond heb actio yn brydferth.

Os myn Cristionogion ddysgu inffideliaid i fod yn gyfiawn tuag at Gristionogaeth, dylent eu hunain fod yn gyfiawn tuag at inffideliaeth.—*J. Stuart Mill.*

Ni fyddai allan o le i rai o'n duwinyddion pe talent sylw difrifol i'r geiriau canlynol o eiddo y Prif Farnwr Coleridge: "Dylai fod rhyw gyfartaledd moesol rhwng y drosedd a'r gosp."

Bywyd.—Mae hanner y byw yn marw cyn eu bod yn 16. Dim ond un o ddeg mil sydd yn byw yn gant, a dim ond un o 100 sydd yn cyrhaedd 60. Mae pobl briod yn byw yn hwy nâ rhai sengl, ac o bob mil a enir nid oes ond 95 priodas yn cymmeryd lle. O bob mil sydd yn cyrhaedd 70, mae yr offeiriaid a llefarwyr cyhoeddus ereill yn rhifo 43, ffermwyr 40, gweithwyr 33, milwyr 32, cyfreithwyr 29, proffeswyr 27, doctoriaid 24. Nid yw y ffermwyr yn byw cyhyd ag offeiriaid, fe ddichon, am eu bod yn esgeuluso deddfau iechyd, mewn bwyta, yfed, cysgu, gwisgo, a'r gofal priodol am danynt eu hunain pan fyddo gwaith y dydd ar ben. Mae ffermwyr a gweithwyr yn bwyta swper trwm ar ddiwedd dydd o haf, ac yn eistedd o gylch y tân yn llawes eu crys, ac yn eu cyflwr lluddedig, a chylchrediad y gwaed wedi ei wanychu, yn cymmeryd *chill* yn rhwydd, ac yn gosod i fewn hadau *rheumatism* yn y dyfodol, diarrhœa, colic, pneumonia, neu ddarfodedigaeth.—*British Medical Journal.*

Athroniaeth.—Na thrallodwch eich hun a thrallodau nes y byddo trallod yn eich trallodi chwi.

"Mahometaniaeth," meddai rhywun, "y grefydd fendigedig sydd yn gwneuthur i ddynion i olchi eu hunain."

Dywedir y bydd gwobrwy o dri gini yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Aberdar, 1885, am y cyfieithiad goreu o unrhyw ddeuddeg o Salmau Iolo i'r Seisneg.

Mae y Parch. J. Lloyd Jones, Lerpwl wedi cyhoeddi ei bapur ar "Eglwys y Dyfodol" yn draethodyn bychan ac yn ei werthu am geiniog. Gobeithiwn y ceir gwerth da arno.

Pa un ai cynnyddu ynte lleihau mae chwaeth ein heglwysi at lenyddiaeth grefyddol.

Cynnaliodd Caeronen a Brondeifi eu cyrddau o ddiolchgarwch am y cynauaf Hydref 15ed.

UN o esgobion Dewi Sant a ddywedodd :—Ffynnonell fawr heresi Undodiaid yw eu hoff arwiredd fod esboniad yr Ysgrythyr i gael ei lywodoraethu gan *reswm* ac nid gan *awdurdod.*

NID oes ond dan lwybr i'w gymmeryd yn y byd—gwneuthur ein dyledswydd, neu ei esgeuluso. Nid oes yr un llwybr canol. —*Madame Guizot.*

FROUDE, yr hanesydd enwog, sydd yn dywedyd, ei fod wedi clywed llawer pregeth ar ddirgelion y ffydd, ar genadwri ddwyfol yr offeiriadaeth, olyniaeth apostolaidd, esgobion, cyfiawnhad, &c., ond dim un mewn 30 mlynedd ar fyw yn onest, nac un ar y gorchymynion, "Na ladrata," "Na ddwg gamdystiolaeth."

NI roddwyd erioed gwell ateb nag eiddo y Gwyddel tlawd i'r offeiriad Pabaidd, pan yn amddiffyn ei hun am ddarllen y Beibl. "Ond," meddai yr offeiriad, "mae y Beibl i'r offeiriaid, ac nid i rai tebyg i chwi." "Ond, syr," ebe Pat, "yr oeddwn yn darllen yn fy Meibl, 'Darllenwch ef i'ch plant,' ac nid oes plant gan yr offeiriaid." "Ond, Pat, 'allwch ch'i ddim ei ddeall." "O'r goreu, meistr, os nad allaf ei ddeall, ni wna un niwed i mi, ac y mae yr hyn yr wyf yn ei ddeall yn gwneyd i mi fyd o les." "O'r goreu, Pat, mae yn rhaid i chwi fyned i'r eglwys, a gwnaiff yr eglwys eich cyfarwyddo. Fe ddyry yr eglwys i chwi laeth y Gair." "Ac o ba le mae yr eglwys yn ei gael oddieithr o'r Beibl. Os gwelwch yn dda, syr, mae yn well genyf gadw y fuwch fy hunan."

MAE yr hwn sydd o'i bwlpud ar y Sul yn trosglwyddo Undodiaid i dân uffern, ac yn eu cyfarch yn gyfeillgar ar ddydd gwaith ar yr heol, yn ddyn *anffyddlon i'w gredo.*

"Beth yw ffydd?" ebe'r athraw wrth y ferch fach yn y dosparth. Atebodd hithau, "Gwneuthur ewyllys Duw, a pheidio gofyn cwestiynau."

MEDDAI aelod eglwys wrth aelod arall, "Gallaf roddi punt at yr achos, ac heb ei deimlo." "Os felly," ebe y llall, "rhowch ddeg punt a theimlwch."

NIS gall neb gredu gormod o dda am Dduw.—*Dr. A. Clark.*

Marwgofion.

Gor. y 18fed, yn 17 oed, Benjamin, anwyl fab Eleanor Davies, 2, Llanwnen. Claddwyd yn ymyl ei dad yn mynwent Alltyplaca, a chyflawnwyd y gwasanaeth ar yr achlysur, yn y tŷ ac yn y capel, gan y gweinidog. Cafodd ryddhad yn y diwedd oddiwrth ei gur maith.

Hyd. y 18fed, yn 42 oed, Jane, gwraig David Evans, Pensarnau, Llanwenog. Hebryngwyd ei gweddillion marwol gan dyrfa fawr o gyfeillion i'w gosod i orphwys yn mynwent Bwlchyfadfa, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan J. D., Alltyplaca. Yr oedd i'r ymadawedig air da gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun. Boed i'r priod a'r plant fodd i ymddarostwng dan alluog law Duw, fel eu dyrchafer mewn amser cyfaddas.

Hyd. y 27ain, yn 83 oed, Esther Davies, Ty'nlone, Llanwenog. Claddwyd gyda'i thadau yn mynwent eglwys y plwyf, a chyflawnwyd y gwasanaeth yn y tŷ gan y Parch. John Davies, Alltyplaca. Un o'r mwyaf diniwed o ferched gwragedd.

Tach. yr 2il, yn 67 oed, John Jones, 1, Llanwnen. Claddwyd yn ymyl ei anwyl briod (yr hon oedd wedi ei flaenu am ychydig), yn mynwent Alltyplaca, a gweinyddwyd ar yr achlysur yn y tŷ a'r capel gan y gweinidog. Hen was ffyddlon i T. H. R. Hughes, Ysw., o'r Neuaddfawr, ac i'w anwyl dad o'i flaen, oedd yr ymadawedig; a theilwng yw coffa i'r boneddwr fod yn dyner wrtho yn nyddiau ei gystudd olaf, yn nghyd â thalu treuliau ei gladdedigaeth. Rhagluniaeth fawr y nef a weno etto ar ei blant amddifaid, yn arbenig ar ei ferch afiach.

Tach. 13, David Howells, Yswain, Gelli Isaf, Aberdar, yn 56 oed. Dydd yr angladd, darllenwyd a gweddiwyd yn y tŷ gan weinidog yr H.D.C., a chladdwyd yn mynwent Eglwys St. Ffagan. Yr oedd y cynhebrwng yn un lluosog iawn.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

"Y Gweithiwr Cymreig."

CYHOEDDIR GAN

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, &c., ABERDAR,

Ddechreu y flwyddyn nesaf (1885),

BAPYR WYTHNOSOL CYMREIG,

RHYDD AC HOLLOL ANENWADOL,

DAN YR ENW

"Y Gweithiwr Cymreig,"

8 TUDALEN, FULL NEWS SIZE.

Bwriedir iddo gynnwys ysgrifau ar Wleidiadaeth, y Celfau a'r Gwyddonau, Pennodau Wythnosol ar Gymdeithasau Dyngarol a Chyfeillgar, yn cynnwys Gofyniadau ac Atebion ar bynciau dyrus mewn cyssylltiad â'r Sefydliadau gwerthfawr hyn, ac ar Bynciau Cyfreithiol yn gyffredinol, Bywgraffiadau, Hynafiaethau, Chwedloniaeth Barddoniaeth, &c. Neilldiuir hefyd nifer o golofnau yn wythnosol er cyhoeddi Cyfansoddiadau Buddugol a Chystadleuol yn y gwahanol Eisteddfodau lleol a chenedlaethol. A chynnwysa yr Hanesion a'r Newyddion diweddaraf a mwyaf dyddorol.

Ysgrifenir yr Erthyglau Arweiniol gan y

PARCH. EDW. DAVIES, RHYMNI.

Golygir y Colofnau Hynafiaethol gan y

PARCH. R. J. JONES, M.A., ABERDAR,

A'r Farddoniaeth gan

DAFYDD MORGANWG, CAERDYDD.

Mae yn dda gan y Cyhoeddwr hyspysu ei fod eisoes wedi cael addewidion gan amryw o brif Lenorion y Genedl i anfon eu cynnyrchion i'r Papyr; ac ymdrechir ei wneyd yn deilwng o gefnogaeth pawb. Yn anad dim, cedwir ef yn hollol rydd oddiwrth driniaethau personol, a phob peth a fo yn ymylu ar Gabldraeth.

Er y golygir i'r Papyr fod, o ran Gwleidiadaeth, yn

☞ RHYDDFRYDWR ☜

perffaith; etto, caniateir i bawb, hyd y nod y Ceidwadwyr dyfnaf eu hargyhoeddiadau ddweyd eu barn a thraethu eu llen ynddo.

Gan y bwriedir iddo gael ei gylchdaenu yn mysg pob dosparth o Gymry yn y wlad hon a gwledydd ereill, bernir y bydd y cyfrwng goreu yn y wlad i osod

HYSPYSIADAU (ADVERTISEMENTS).

☞ Pob Archebion a Gohebiaethau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr,

Jenkin Howell, 16, Commercial Place, Aberdar.

Pris:—CEINIOG. Yr elw arferol i Ddosparthwyr a Llyfr-werthwyr.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU.—Rev. J.W.; D.L., Bwlch; D.R., Yr Iscae.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

THE EDITOR OF "YR YMOFYNYDD,"
MEIRION COTTAGE,
ABERDARE.

O herwydd hyd anarferol rhai o'r erthyglau yr ydym wedi gorfod rhoi 4 tudalen yn ychwanegol y tro yma. Yr ydym yn taer ddymuno fod y ddadl bresenol i gael ei dwyn i derfyniad yn rhifyn Ionawr.

YR YMOFYNYDD.

Yr ydym yn taer gymhell ein darllenwyr i wneuthur ymdrech i helaethu cylchrediad YR YMOFYNYDD gyda'r flwyddyn newydd. Ceisied pob un a allo gael un derbyniwr ychwanegol ac anfoned eu harchebion i mewn ar unwaith, fel y gallom wybod pa nifer i argraffu. Mae genym addewid am erthyglau gwerthfawr y flwyddyn nesaf i ymddangos o fis i fis fel y canlyn:—Y syniad Undodaidd (1) am Gredöau, (2) am Dduw, (3) am Iesu Grist, (4) am Ddyn, (5) am Bechod ac Iachawdwriaeth, (6) am Droedigaeth ac Ailenedigaeth, (7) am yr Iawn, (8) yr Ysprydd Glân, (9) y Beibl, (10) Gweddi, (11) yr Eglwys, (12) Nefoedd ac Uffern. Hyd yma, mae y trefniadau fel y canlyn, (1) gan y Golygydd, (2) J. E. Manning, M.A., Abertawe, (3) R. C. Jones, Llanbedr, (4) W. James, B.A., Llandyssul, (5) J. Davies, Alltyplaca.

TRECYNON SEMINARY, ABERDARE.

R. JENKIN JONES, M.A., HEAD-MASTER.

☞ *Vacancies for two Boarders. Terms on application.* ☜

Y CWRDD CHWARTEROL.

Cynnelir ef yn Cefncoed. Dim manylion i law.

EGLWYS Y DYFODOL.

Papur y PARCH. T. LLOYD JONES yn Llandyssul. Argraffedig o'r YMOFYNYDD gyda diwygiadau. *Pris Ceiniog.*